

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


Ymchwil gymdeithasol  
Social research

Number: 92/2014

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Gwerthusiad Annibynnol o Brosiect Creu'r Cysylltiadau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

### Gwerthusiad Ffurfiannol



# **Gwerthusiad Annibynnol o Brosiect 'Creu'r Cysylltiadau' Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

## **GWERTHUSIAD FFURFIANNOL**

### **Gareth Williams, Old Bell 3 Cyf**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Jackie McDonald,

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi,

Llywodraeth Cymru,

Parc Cathays,

Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 029 2080 1193

E-bost: [Jackie.McDonald@wales.gsi.gov.uk](mailto:Jackie.McDonald@wales.gsi.gov.uk)

<http://www.cymru.gov.uk/ymchwil>

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 30 Hydref 2014

ISBN: 978-1-4734-2501-9

© Hawlfraint y Goron 2014

## Tabl cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	2
1. CYFLWYNIAD	9
1.1 Cefndir	9
1.2 Nod y Gwerthusiad a'r Adroddiad	10
1.3 Dull	12
1.4 Strwythur yr Adroddiad	13
2. CYD-DESTUN	14
2.1 Cyflwyniad	14
2.2 Y Comisiwn ac Ymateb Llywodraeth Cymru	15
2.3 Cynllun Trydydd Sector	21
3. CANFYDDIADAU	24
3.1 Cyflwyniad	24
3.2 Cynrychiolaeth a Gwybodaeth	26
3.2.1 <i>Gweithgareddau</i>	27
3.2.2 <i>Allbynnau</i>	32
3.2.3 <i>Canlyniadau</i>	34
3.3 Mewnbwn i Gynllunio Gwasanaethau	35
3.3.1 <i>Gweithgareddau</i>	37
3.3.2 <i>Allbynnau</i>	39
3.3.3 <i>Canlyniadau</i>	39
3.4 Mewnbwn i Ddarpariaeth Gwasanaethau	47
3.4.1 <i>Gweithgareddau</i>	48
3.4.2 <i>Allbynnau</i>	50
3.4.3 <i>Canlyniadau</i>	51
3.5 Llais Dinasyddion	58
3.5.1 <i>Gweithgareddau</i>	59
3.5.2 <i>Allbynnau</i>	61
3.5.3 <i>Canlyniadau</i>	61
3.6 Effeithiau	62
3.7 Arfer Da	64
3.8 Rhwystrau	68
4. Casgliadau ac Argymhellion	72

## CRYNODEB GWEITHREDOL

### *Cefndir*

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf. gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o brosiect 'Creu'r Cysylltiadau' WCVA<sup>1</sup>.

Mae prosiect Creu'r Cysylltiadau, a sefydlwyd ym Mehefin 2012 ac a oedd yn llwyr weithredol erbyn Mawrth 2013, yn darparu cyllid ar gyfer swydd(i) ychwanegol ym mhob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio i ysgogi a defnyddio cyfraniad y trydydd sector i'r gwaith o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus a gaiff ei hybu gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Nod prosiect Creu'r Cysylltiadau yw meithrin gallu hirdymor y trydydd sector i gyfrannu at y broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn neilltuol i weithredu'r Cynllun Integredig Sengl a ddatblygwyd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Yn neilltuol, amcanion Creu'r Cysylltiadau yw:

- gwella parodrwydd cyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhrychir ar y cyd;
- cynyddu nifer y cyrff trydydd sector sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- sicrhau bod y trydydd sector yn fwy gwybodus am Fyrddau Gwasanaethau Lleol a'r cynnydd ar ddiwygio'r sector cyhoeddus yn ei ardal ac yn fwy cyffredinol;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i gysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth; a
- chynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Daw'r prosiect i ben ym Mawrth 2015 (er bydd cyllid ar gyfer swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2014) a bydd gwerthusiad y

---

<sup>1</sup> Rhan-ariannir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru fel rhan o brosiect ehangach Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau - a ariannir dan Flaenoriaeth 4 Thema 1 Rhaglen Weithredol Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

prosiect yn cefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau wrth benderfynu os a sut mae'r prosiect yn cyflawni'r amcanion a nodwyd, yn ogystal â rhoi adborth a dysgu cyfredol sy'n galluogi sicrhau gwelliannau parhaus i'r prosiect.

Yr adroddiad hwn yw'r ail o'r hyn y disgwylir fydd yn dri adroddiad yn deillio o'r gwerthusiad: cyhoeddwyd gwerthusiad llinell sylfaen a phroses ddechreuol yn gynnar yn 2014<sup>2</sup> a chynhelir gwerthusiad terfynol erbyn Mawrth 2015.

Disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei ddarllen mewn cysylltiad gyda'r adroddiad blaenorol, sy'n nodi'n llawn y cefndir ar gyfer prosiect Creu'r Cysylltiadau a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo.

### *Rhaglen Waith*

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng Ebrill a Gorffennaf 2014 a ganolbwyntiodd ar bum ardal astudiaeth achos. Roedd hyn yn cynnwys:

- cytuno ar ddull diwygiedig ar gyfer y gwaith maes, gan roi ystyriaeth i anhawster cynnal arolwg ystyrion meintiol o randdeiliaid o fewn yr ardaloedd astudiaeth achos, o gofio am anawsterau sicrhau data addas ar gyswllt;
- cynnal gwaith maes yn y pum ardal astudiaeth achos. Roedd hyn yn cynnwys cyfweiliadau unigol gyda 54 o randdeiliaid, yn ogystal ag astudio ystod eang o ddogfennau perthnasol;
- Diweddarau'r adolygiad llenyddiaeth a data i ystyried dogfennau polisi allweddol a gyhoeddwyd ers ysgrifennu'r adroddiad llinell sylfaen yn Ionawr 2014.

### *Canfyddiadau*

Tueddodd gwaith manylach yn yr ardaloedd astudiaeth achos a gynhaliwyd yn ystod cam diweddaraf yr ymchwil i gadarnhau canfyddiadau'r gwerthusiad proses dechreuol yng nghyswllt y bwch sylweddol sy'n bodoli rhwng uchelgeisiau'r prosiect fel y'i lluniwyd yn wreiddiol a'r hyn y bu'n bosibl ei gyflawni hyd yma.

---

<sup>2</sup> Gweler

Mewn llawer o achosion mae swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at sicrhau cynrychiolaeth well i'r sector yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a fforymau allweddol eraill; i ledaenu gwybodaeth am y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Gweithredu Unigol, ac i gefnogi cyrff unigol yn y trydydd sector i feithrin eu gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac ystyried gweithio mewn partneriaeth i wneud hynny. Mae ein hastudiaethau achos yn awgrymu rhai enghreifftiau cadarnhaol iawn (os cymharol brin) o swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn chwarae rôl ganolog wrth fynd ymlaen â chynlluniau ymarferol i wella darpariaeth gwasanaeth, wrth drefnu cydweithio rhwng cyrff trydydd sector; ac wrth weithio fel catalydd ar gyfer mewnbyn cryfach o'r sector i waith Byrddau Gwasanaethau Lleol a fforymau eraill; ac mae'r prosiect yn ei gyfanrwydd wedi helpu i godi proffil y 10 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd o fewn y sector.

Fodd bynnag, cyfyngwyd yn ddifrifol ar allu swyddogion Creu'r Cysylltiadau ac yn wir y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn fwy cyffredinol i drosi eu gweithgareddau yn ganlyniadau diriaethol yn nhermau ymestyn rôl y trydydd sector wrth lunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a gwelliant sylweddol yn ansawdd dyluniad a gweithredu gwasanaethau gan y cyd-destun y gweithredir y prosiect ynddo, yn neilltuol:

- Y cynnydd aml yn araf o ran symud gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ymlaen o ddadansoddi anghenion a dynodi materion i ystyried dyluniad a darpariaeth gwasanaethau, a'r ymdeimlad o ddatgysylltiad rhwng y trafodaethau strategol lefel uchel hyn a chomisiynu penderfyniadau;
- Tueddiad cyrff cyhoeddus i droi ar i mewn wrth ymateb i'r pwysau a achosir gan y toriadau mewn cyllid cyhoeddus;
- Y gostyngiad yng ngallu llawer o gyrff trydydd sector i ymwneud ag agendâu mwy strategol oherwydd effaith toriadau yn eu cyllid eu hunain;
- Yr hyn a ymddengys yn ddryswch ac anghysondeb yn y dull caffael, gyda chyfleoedd cymharol gyfyngedig i gyrff trydydd sector lleol

dendro, a llai byth o gyfleoedd iddynt dendro'n llwyddiannus, i ddarparu gwasanaethau;

- Diffyg cyfatebiaeth rhwng disgwyliadau comisiynwyr sector cyhoeddus y gallai defnyddio'r trydydd sector fod yn opsiwn rhad, a barn cyrff trydydd sector fod gwerth ychwanegol y sector drwy ansawdd a chyd-gynhyrchu, ac nid costau is;
- Y 'malltod cynllunio' yn deillio o'r drafodaeth am ailstrwythuro llywodraeth leol a'r tensiwn rhwng ffocws lleol y rhan fwyaf o Fyrddau Gwasanaethau Lleol a phwysigrwydd cynyddol yr agenda rhanbarthol.

Yn yr ystyr yma, mae ein hymchwil wedi tueddu i gadarnhau barn y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus fod Byrddau Gwasanaethau Lleol ymhell o gyflawni eu potensial llawn ac nad ydynt eto wedi arwain at wella gwasanaethau, bod gweithio partneriaeth yn rhy feichus ac yn rhy gymhleth a bod mwy o siarad am gydgyhyrchu nag o weithredu arno. Yn wir - er yn cydnabod fod y darlun ym mhob un o'r pum ardal astudiaeth achos yn wahanol iawn, ac y gallai sefyllfa'r sector fod yn wannach byth oni bai am Creu'r Cysylltiadau - mewn nifer ohonynt, ymddengys yn glir iddi ddod yn fwy, nid llai, anodd i'r trydydd sector yn lleol fod â rôl sylweddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Ond er y gall ffactorau allanol fod i gyfrif am lawer o'r anawsterau sy'n wynebu prosiect Creu'r Cysylltiadau, mae hefyd nifer o faterion yn ymwneud â chynllun y prosiect:

- Yn gyntaf, mae diffyg cyfatebiaeth rhwng maint yr uchelgais a nodwyd yn y Cynllun Busnes ac adnoddau ac amserlenni'r prosiect. Hyd yn oed mewn amgylchiadau llawer mwy ffafriol, mae'n annhebyg y bu erioed yn realistig disgwyl i un swyddog ar radd cymharol isel mewn Cyngor Gwirfoddol Lleol fedru darparu'r ystod gweithgareddau (a hyd yn oed fwy o ganlyniadau) a ragwelwyd;
- Yn ail, nid oedd y ffocws ar recriwtio Swyddog Creu'r Cysylltiadau penodol ym mhob ardal, er yn ddealladwy o safbwynt dangos 'ychwanegedd' y prosiect, o reidrwydd yn cydnabod yn llawn i ba

raddau y mae materion yn ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn rhan allweddol o waith Cyngorau Gwirfoddol Sirol a llawer o'u staff. Mae hyn wedi golygu, hyd yn oed lle gweithiodd Creu'r Cysylltiadau yn dda, ei bod yn amhosibl gwahanu effeithiau'r prosiect oddi wrth effeithiau ehangach hyrwyddo'r agenda yma gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol. Lle na weithiodd cystal, cafodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau hi'n anodd diffinio eu rôl. Mae'r ffaith ei bod yn anochel y cyflogwyd swyddogion Creu'r Cysylltiadau ar gontractau tymor sefydlog cymharol fyr wedi golygu y gallai rheolwyr fod wedi bod yn amharod i'w defnyddio mewn swyddi mwy gweledol, yn wynebu ar i faes;

- Yn drydydd, ac efallai'n anos ei ddatrys, yw'r cwestiwn er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol rôl unigryw yn nhermau cynrychioli'r sector ar lefel leol, nad yw eu sefyllfa mewn unrhyw ffordd yn ddiwrthwynebiad, gyda'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn aml yn cael eu gweld fel bod yn cynrychioli un rhan o'r sector yn unig, yn neilltuol y cyrff sydd wedi ymsefydlu'n fwy yn lleol a gyda mwy o sail cymunedol.

### *Argymhellion*

Gwnawn saith argymhelliad, er eu bod yn anochel yn rhai darpariaethol ar y cam hwn ac y cânt eu trafod a'u hystyried ymhellach (yn cynnwys gyda swyddogion Creu'r Cysylltiadau) yn ystod y cam gwerthuso terfynol.

**Argymhelliad 1:** Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Cyngorau Gwirfoddol Sirol i flaenoriaethu eu gwaith ar ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n debyg y caiff hyn ei gyflawni'n fwy effeithlon drwy sicrhau fod adnoddau ar gael yn glir o fewn y Grant Seilwaith i gefnogi'r gwaith hwn a drwy sicrhau bod Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn ymarferol yn rhoi blaenoriaeth briodol i'r rôl. Mae angen i Gyngorau Gwirfoddol Sirol gael yr hyblygrwydd i ddefnyddio adnoddau staff yn y ffordd sy'n ymddangos yn fwyaf addas iddynt.



**Argymhelliad 2:** Dylai Cyngorau Gwirfoddol Sirol (gyda chefnogaeth y WCVA lle bo angen) adolygu rolau a chyfrifoldebau eu staff presennol i ddynodi bylchau amlwg (yn dilyn Creu'r Cysylltiadau) yn nhermau sicrhau gwasanaeth digonol i is-grwpiau allweddol y Byrddau Gwasanaethau Lleol a fforymau eraill. Gan ddefnyddio arfer da a ddatblygwyd drwy'r prosiect (yn neilltuol mewn un ardal astudiaeth achos) i gefnogi cynrychiolwyr trydydd sector i adrodd yn ôl, dylent ystyried i ba raddau y gellir defnyddio cynrychiolaeth o'r sector ehangach (h.y. tu allan i staff Cyngorau Gwirfoddol Sirol) i sicrhau cwmpas llawn.

**Argymhelliad 3:** Dylai Cyngorau Gwirfoddol Sirol barhau i gynnig hyfforddiant a meithrin gallu yn ymwneud â thendro i sefydliadau sy'n aelodau fel rhan o'u cynnig hyfforddiant creiddiol, gan gronni adnoddau lle bynnag sy'n bosibl, a gyda ffocws cryf yn parhau ar sicrhau cydweithredu.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r WCVA ystyried p'un ai, ac os felly, sut, y gellir sicrhau mwy o ymgysylltu gyda chyrrff mwy yn y thrydydd sector i ddefnyddio eu mewnbwn i feddwl am ddyluniad gwasanaethau ac i sicrhau negeseuon cyson o'r sector ehangach i gomisiynwyr sector cyhoeddus.

**Argymhelliad 5:** Wrth ddatblygu ei ymateb i'r Comisiwn, yn cynnwys ei bapur arfaethedig ar gydgyhyrchu, dylai Llywodraeth Cymru gydnabod barn y sector am y cynnydd cyfyngedig a wnaed yn nhermau'r agenda yma ac ystyried pa fesurau eraill y gellir eu cymryd i gymell awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i ymgysylltu mwy, yn arbennig o gofio am effaith pwysau ar gyllidebau.

**Argymhelliad 6:** Er yn cydnabod ei fod eisoes wedi buddsoddi gwaith sylweddol yn nhermau gwella caffaeliad, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau fod pob corff cyhoeddus wedi ac yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau clir ar arfer caffaeliad da, yn cynnwys yng nghyswllt y canfyddiad fod darpar wrthdaro mewn diddordebau yn ei gwneud yn amhriodol i'r trydydd sector fod â mewnbwn wrth ddylunio gwasanaethau.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gamau pellach y gellir eu cymryd i sicrhau mwy o gydymffurfiaeth ar ran pob corff cyhoeddus gyda'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

### *Cefndir*

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf. gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o brosiect 'Creu'r Cysylltiadau' WCVA<sup>3</sup>.

Mae prosiect Creu'r Cysylltiadau, a sefydlwyd ym Mehefin 2012 ac a oedd yn llwyr weithredol erbyn Mawrth 2013, yn darparu cyllid ar gyfer swydd(i) ychwanegol o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio i ysgogi a defnyddio cyfraniad y trydydd sector i'r gwaith o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus a gaiff ei hybu gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol.<sup>4</sup>

Gyda'i wreiddiau fel cynnig prosiect neilltuol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) o'r WCVA a'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol, dyfarnwyd tua £2.7 miliwn o gyllid i'r prosiect o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)<sup>5</sup> fel rhan o brosiect ehangach (ac a gymeradwywyd yn flaenorol) gan Lywodraeth Cymru - Prosiect Datblygu a Blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol - a ariannwyd dan Flaenoriaeth 4 Thema 1 Rhaglen Weithredol Cydgyfeirio ESF ar gyfer Gorllewin Cymoedd a'r Cymoedd.<sup>6</sup>

Nod prosiect Creu'r Cysylltiadau yw ategu'r prosiect ehangach drwy feithrin gallu hirdymor y trydydd sector i gyfrannu at y broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn neilltuol i weithredu'r Cynllun Integredig

---

<sup>3</sup> Rhan-ariannir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru

<sup>4</sup> Mae'r prosiect yn darparu cyllid ar gyfer un swyddog datblygu prosiect ym mhob un o'r 13 Cyngor Gwirfoddol Sirol a dau yng Nghymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), sy'n weithredol ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, yn ogystal ag adnodd rheoli prosiect canolog (1.9 cyfwerth ag amser-llawn) yn y WCVA ei hunan.

<sup>5</sup> Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer y prosiect yn cynnwys £2.7 miliwn o ESF, £453,352 o arian cyfatebol gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol a £45,788 o arian cyfatebol gan y WCVA.

<sup>6</sup> Defnyddir 'y prosiect' drwy'r adroddiad yma i gyfeirio at elfen y WCVA o'r prosiect ehangach, a'r 'prosiect ehangach' i gyfeirio at Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfanrwydd.

Sengl a ddatblygwyd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Yn neilltuol, amcanion Creu'r Cysylltiadau yw:

- gwella parodrwydd cyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhrychir ar y cyd;
- cynyddu nifer y cyrff trydydd sector sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- sicrhau bod y trydydd sector yn fwy gwybodus am Fyrddau Gwasanaethau Lleol a'r cynnydd ar ddiwygio'r sector cyhoeddus yn eu hardaloedd ac yn fwy cyffredinol;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i gysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth; a
- chynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus<sup>7</sup>.

Daw'r prosiect i ben ym Mawrth 2015 (er y daw gweithgaredd y prosiect i ben ar 31 Rhafyr 2014) a bydd gwerthusiad y prosiect yn cefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau wrth ffurfio barn os a sut mae'r prosiect yn cyflawni'r amcanion a nodwyd, yn ogystal â rhoi adborth a dysgu cyfredol sy'n ei gwneud yn bosibl gwneud gwelliannau parhaus i'r prosiect.

## **1.2 Nod y Gwerthusiad a'r Adroddiad**

Nodau'r gwerthusiad yw:

1. Asesu sut yr effeithiodd Creu'r Cysylltiadau ar ymgyfraniad y trydydd sector mewn darparu, datblygu ac ailgynllunio gwasanaethau cyhoeddus;
2. Asesu sut yr effeithiodd Creu'r Cysylltiadau ar ddylunio, cynllunio a datblygu gwasanaethau cyhoeddus lleol ac os yw hyn wedi sicrhau gwelliant.

Amcanion manwl y gwerthusiad yw:

- edrych sut mae rôl y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau lleol yn newid (e.e. p'un ai yw cwmpas a maint darpariaeth y trydydd sector yn newid);

---

<sup>7</sup> O Grynodedb y Prosiect a gyflwynwyd i WEFO. Gweler hefyd Adran 2.

- ymchwilio sut mae cyflenwad a'r galw am wasanaethau gan y trydydd sector wedi newid a sut y bydd hyn yn effeithio ar ei gynaliadwyedd;
- asesu effeithiau'r newidiadau hyn ar gynllunio gweithlu a sgiliau yn y trydydd sector;
- ymchwilio os bydd perthynas ac adeiladu rhwydweithiau a gweithgareddau eraill swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gynaliadwy tu hwnt i oes y Prosiect;
- archwilio os a phryd mae dylanwad y trydydd sector ar bartneriaethau allweddol a'u gweithgareddau yn cynyddu drwy weithredu Creu'r Cysylltiadau;
- asesu os yw dylunio a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus (yn neilltuol o amgylch blaenoriaethau Cynlluniau Integredig Sengl) yn gwella drwy integreiddio'r trydydd sector yn well;
- archwilio sut y cafodd ymgysylltu â dinasyddion ei gynnwys wrth sefydlu blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl a dylunio a darparu gwasanaethu;
- asesu os yw Creu'r Cysylltiadau wedi sicrhau gwelliannau yn y cyswllt yma.

Yr adroddiad yma yw'r ail o'r hyn a ddisgwylir fydd yn dri adroddiad yn deillio o'r gwerthusiad: cyhoeddwyd gwerthusiad llinell sylfaen a phroses ddechreuol yn gynnar yn 2014<sup>8</sup> a chynhelir gwerthusiad terfynol erbyn Mawrth 2015. Disgwylir i'r adroddiad yma gael ei ddarllen mewn cysylltiad gyda'r adroddiad blaenorol, sy'n rhoi cefndir llawn prosiect Creu'r Cysylltiadau a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo, yn ogystal ag ystyried materion yn ymwneud â chyflenwi'r prosiect mewn cyn fanylder.

Bwriedir i'r adroddiad yma ganolbwyntio'n bennaf ar yr hyn a gyflawnir gan y prosiect o fewn yr ardaloedd astudiaeth achos a pha ffactorau eraill sy'n effeithio ar ei allu i gyflawni.

---

<sup>8</sup> Gweler <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/independent-evaluation-wales-council-voluntary-actions-making-connections-project/?lang=cy>

### 1.3 Dull

Mae'r adroddiad yma'n seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mehefin 2014 oedd yn cynnwys:

- cytuno ar ddiwygio'r dull o gynnal y gwaith maes, gan roi ystyriaeth i anhawster cynnal arolwg ystyrion meintiol o randdeiliaid o fewn yr ardaloedd astudiaeth achos, oherwydd problemau am sicrhau data cyswllt addas;
- cynnal gwaith maes yn y pum ardal astudiaeth achos. Roedd hyn yn cynnwys cyfweiliadau unigol<sup>9</sup> gyda 54 o randdeiliaid<sup>10</sup>, yn ogystal ag astudio ystod eang o ddogfennau perthnasol ac, mewn un achos, arsylwi cyfarfod o fforwm perthnasol yn dod â chyrrff trydydd sector ynghyd. Rhyngddynt, roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys:
  - pum swyddog Creu'r Cysylltiadau;
  - Prif Swyddogion (neu gyfatebol) pob un o'r pum Cyngor Gwirfoddol Sirol a naw aelod arall o staff Cyngorau Gwirfoddol Sirol;
  - 17 cynrychiolydd o gyrrff trydydd sector, sydd un ai'n ymwneud â darparu gwasanaethau neu'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith swyddogion Creu'r Cysylltiadau<sup>11</sup>;
  - 14 swyddog Awdurdodau Lleol<sup>12</sup>, tri chynrychiolydd Bwrdd Iechyd Lleol ac un cynrychiolydd Awdurdod Heddlu.
- diweddarau'r adolygiad o lenyddiaeth i ystyried deunydd polisi allweddol a gyhoeddwyd ers ysgrifennu'r adroddiad llinell sylfaen yn Ionawr 2014, yn neilltuol:
  - Cynllun newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Trydydd Sector (Ionawr 2014);

---

<sup>9</sup> O'r rhain, cynhaliwyd 45 wyneb i wyneb a naw dros y ffôn

<sup>10</sup> Yn cynnwys pedwar a gyfwelwyd yng ngham cyntaf y gwaith maes yn unig.

<sup>11</sup> Roedd y rhain gan 15 corff. Byddem yn disgrifio pump o'r cyrrff hyn fel rhai bach, tri fel rhai maint canolig a saith fel rhai mawr, yn gweithredu mewn amrywiaeth o feysydd polisi: roedd pedwar yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol, dau gyda phobl hŷn, tri gyda phlant a phobl ifanc, dau gyda thai ac un yr un gyda chyngor dinasyddion, trais domestig, bancio amser ac adfywio ardaloedd.

<sup>12</sup> Roedd y mwyafrif yn gweithio yn Adran y Prif Weithredwr neu debyg, ond roedd dau o Adfywio/Gwasanaethau Amgylcheddol, dau o Wasanaethau Pobl Hŷn ac un o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn fwy cyffredinol.

- Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus<sup>13</sup> (Ionawr 2014);
- Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn - Diwygio Llywodraeth Leol (Gorffennaf 2014);
- adolygu Adroddiad Interim y Gwerthusiad o Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol (Mai 2014).

#### **1.4 Strwythur yr Adroddiad**

Yng ngweddill yr adroddiad yma ystyriwn yn gyntaf y newidiadau i'r cyddestun y mae'r prosiect yn gweithio ynddo (**Adran 2**) cyn cyflwyno ein canfyddiadau o gam diweddaraf y gwaith maes (**Adran 3**) a rhoi cyfres gryno o gasgliadau ac argymhellion (**Adran 4**).

---

<sup>13</sup> Cyfeiriwn at hyn fel 'y Comisiwn' ym mhob rhan o'r adroddiad yma.

## 2. CYD-DESTUN

### 2.1 Cyflwyniad

Yn yr adroddiad llinell sylfaen, fe wnaethom nodi bod:

- Llywodraeth Cymru, am fwy na degawd, wedi datblygu dull neilltuol a chyson at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar syniad 'llais, yn hytrach na dewis' a chydweithredu yn hytrach na chystadlu rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus;
- Bu creu Byrddau Gwasanaethau Lleol gydag ymgyfraniad gorfodol y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac, yn fwy diweddar, gyflwyno Cynlluniau Integredig Sengl y bwriedir iddynt ganiatáu symleiddio sylweddol ar weithio partneriaeth, yn rhan hollbwysig o'r agenda;
- Ystyrir bod ymgysylltu â dinasyddion hefyd yn allweddol i wella gwasanaethau cyhoeddus, gan gydnabod bod gan y trydydd sector ran bwysig wrth sicrhau y caiff llais defnyddwyr gwasanaethau ei glywed, yn ogystal â defnyddio ei brofiad wrth ddylunio gwasanaethau cyhoeddus;
- Yn gynyddol, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi tanlinellu pwysigrwydd y sector cyhoeddus yn gwneud mwy o ddefnydd o'r trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus blaengar, gyda ffocws cryf ar ataliaeth ac ymyriad cynnar, fel rhan o 'economi cymysg';
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi annog y trydydd sector, yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant cyhoeddus, i symud ymaith o ddiwylliant dibyniaeth ar grantiau a choleddu menter gymdeithasol: ystyrir bod hyn yn galw am fwy o gydweithio o fewn y sector, gyda'r WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol â rôl gefnogi bwysig yn hyn;
- Er bod agenda Byrddau Gwasanaethau Lleol hyd yma wedi canolbwyntio ar lefel awdurdodau lleol unigol (er bod arbrofi mewn rhai ardaloedd gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol a/neu Gynlluniau Integredig Sengl mewn dwy ardal awdurdod lleol gyfagos), bu Llywodraeth Cymru yn gynyddol awyddus i annog cydweithio rhanbarthol, a sefydlodd y Comisiwn dan arweiniad Syr Paul Williams i edrych ar siâp llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus;



- Mae ymchwil i weithio partneriaeth yn awgrymu fod pwysau ariannol yn dilyn yr argyfwng economaidd yn gwthio awdurdodau lleol yn gynyddol tuag at bartneriaethau allweddol, a gynlluniwyd i dorri costau (yn aml yn golygu gweithio gydag awdurdodau lleol eraill ar draws ffiniau) yn hytrach nag ar bartneriaethau lle mae'r ffocws ar ymgysylltu â dinasyddion a phersonoli gwasanaethau;
- Ymddengys mai proffil cyffredinol isel fu gan ymgysylltu â dinasyddion a chynyddu rôl y trydydd sector ym Mhrosiectau Darparu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Cronfa Gymdeithasol Ewrop fel y cânt eu gweithredu<sup>14</sup>.

Yn yr Adran yma, rhoddwn ddiweddariad ar y dadansoddiad o'r cyd-destun polisi a gyflwynwyd yn yr adroddiad llinell sylfaen.

## 2.2 Y Comisiwn ac Ymateb Llywodraeth Cymru

### **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL**

Mae adroddiad y Comisiwn yn cymeradwyo cyfeiriad taith Llywodraeth Cymru yn nhermau gweithio partneriaeth a chynyddu'r ymgysylltu â'r trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, ond yn awgrymu'n gryf mai cymharol ychydig o gynnydd a wnaed a bod llawer o waith ar ôl.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau'r Comisiwn yn fras ac ailadroddodd ei chefnogaeth i weithio partneriaeth strategol, yn cynnwys y trydydd sector, gyda statws statudol i'w roi i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol drwy fil arfaethedig Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Soniodd Llywodraeth Cymru hefyd am ei bwriad i gyhoeddi mwy o ganllawiau ar gydgyngyrchu, mewn ymgynghoriad â'r trydydd sector, yn ddiweddarach yn 2014.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i ad-drefnu strwythur llywodraeth, ar sail 12 Awdurdod Unedol, ond mae'n annhebyg y gweithredir hyn yn llawn hyd 2020.

<sup>14</sup> Gweler hefyd y Gwerthusiad o Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Lleol yr ESF, Llywodraeth Cymru, Mai 2014, t.52

*Cyhoeddwyd Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ionawr 2014.*

Mae'r adroddiad yn amlwg yn dweud fod angen 'newid sylweddol mewn prosesau llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus'<sup>15</sup> i ymateb i'r pwysau cynyddol ar gyllidebau cyhoeddus fel canlyniad i gynildeb, newid demograffig a galw cyhoeddus cynyddol am wasanaethau safon-byd. Er bod y canfyddiad o wasanaethau cyhoeddus gan ddinasyddion yn gymharol gadarnhaol, mae'n dweud 'mai gwan ac anghyson yw'r darlun ar gyfer gormod o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'<sup>16</sup>.

Bu llawer o ffocws sylw yn y cyfryngau a thrafodaeth wleidyddol am yr adroddiad ar ei gynigion i ailstrwythuro llywodraeth leol drwy uno awdurdodau lleol cyfredol, ar sail un o bedwar gwahanol fodel, yn cynnwys 10, 11 neu 12 awdurdod unedol: allan o'r 22 awdurdod presennol, dim ond ym Mhowys y mae'n sicr na fyddai unrhyw newid, er bod yr adroddiad yn annog uno'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Gellid hefyd gadw Abertawe a Sir Gaerfyrddin yn rhai o'r sefyllfaoedd.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd newidiadau sylweddol yn niwylliant a'r agwedd at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys mynnu fod angen ffocws llawer cliriach ar wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, fydd yn galw am weithio traws-sector ac arweinyddiaeth gref, ac ar fodolau darpariaeth newydd sydd â'u ffocws ar ymyriad cynnar i lacio pwysau galw ac yn seiliedig ar 'gydweithrediad ystyrion ar draws sectorau, sefydliadau a ffiniau, gyda chyd-gynhyrchu gwasanaethau yn nodwedd allweddol wrth wneud hynny'<sup>17</sup>.

Mae'r adroddiad yn dadlau, er y croesewir cyfuno gweithio partneriaeth ar y lefel leol drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol mewn egwyddor, 'mae tystiolaeth glir mai cynnydd cyfyngedig a thameidiog a wnaed hyd yma'.

---

<sup>15</sup> Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Lleol: Adroddiad Cryno, t.2

<sup>16</sup> Ibid., t.10

<sup>17</sup> Ibid., t.12

Mae'n awgrymu mai ychydig o dystiolaeth sydd fod cydweithredu wedi cael unrhyw effaith ar safonau gwasanaeth neu sicrhau canlyniadau ac yn sôn am 'ymdeimlad cyffredinol fod cefnogi trefniadau cydweithio yn defnyddio mwy o adnoddau nag y gallai'r canlyniadau ei gyfiawnhau', gan ddod i'r casgliad bod 'angen archwilio'r systemau a'r strwythurau presennol yn radical'<sup>18</sup>.

Mae'r adroddiad yn cydnabod, hyd yn oed gydag arweinyddiaeth gref gan Lywodraeth Cymru, y bydd y newid sylweddol sydd ei angen yn cymryd o leiaf dair i bum mlynedd<sup>19</sup> ac yn argymhell y dylai trefniadau rhaglen ar gyfer uno awdurdodau lleol fod yn ei le erbyn Pasg 2014<sup>20</sup>. Mae eraill o blith y 62 argymhelliad sy'n berthnasol i Creu'r Cysylltiadau yn cynnwys:

- Yr angen am weithredu ar frys i integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar sail 'cynigion, cerrig milltir, targedau a chanlyniadau manwl ar gyfer gwella ac integreiddio'r modd y darperir pob gwasanaeth perthnasol'<sup>21</sup>;
- Y dylai 'strwythurau partneriaeth lleol gael eu symleiddio'n radical a'u gwneud yn fwy effeithiol', gyda Byrddau Gwasanaeth Lleol i) yn sicrhau eu bod yn cyflawni meini prawf a nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer gweithio partneriaeth effeithlon; ii) diwygio (o fewn dim mwy na 12 mis) strwythurau partneriaeth eraill fel eu bod yn cydymffurfio gyda'r meini prawf hyn a'r canlyniadau blaenoriaeth a nodwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol; a iii) sicrhau fod y Cynlluniau Integredig Sengl yn canolbwyntio ar y canlyniadau blaenoriaeth a 'nodi'n glir y camau sydd angen eu cymryd, gan bwy ac erbyn pryd'<sup>22</sup>;
- Yr angen i Lywodraeth Cymru ddiwygio Byrddau Gwasanaethau Lleol i sicrhau bod 'un model llywodraethu cadarn ar waith sy'n deg ac yn dryloyw ac sy'n sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar gyfrifoldebau a chamau gweithredu penodol. a hawliau a

---

<sup>18</sup> Ibid., t.24

<sup>19</sup> Ibid., t.86

<sup>20</sup> Ibid., t. 90

<sup>21</sup> Ibid., t.95

<sup>22</sup> Ibid., t. 96

rhwymedigaethau ar y cyd' ac felly bod gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol 'y pŵer i wneud penderfyniadau sylweddol ac ystyrion'<sup>23</sup>;

- Ffocws cryf ar bwysigrwydd craffu yn cynnwys sicrhau fod Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gweithredu rhaglen graffu benodol a gofyniad ar gyfer 'cyfethol unigolion o grwpiau eirioli a grwpiau eraill ar bwylgorau craffu er mwyn cynyddu capasiti a gallu pwyllgorau o'r fath i gyflawni gwaith craffu adeiladol a hyddysg'<sup>24</sup>;
- Y dylai Llywodraeth Cymru gytuno gyda phob Bwrdd Gwasanaethau Lleol erbyn diwedd 2014/15 ar 'sut y bydd y bwrdd a'i aelodau yn cyfrannu at ganlyniadau strategol cenedlaethol tra'n mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol ar yr un pryd'<sup>25</sup>.

Felly, er bod yr adroddiad yn cymeradwyo'r cyfeiriad y bu Llywodraeth Cymru yn teithio ynddo mewn blynyddoedd diweddar mewn gweithio partneriaeth a mwy o ymgysylltu â'r trydydd sector a dinasyddion wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, mae'n awgrymu'n gryf mai cymharol ychydig o gynnydd a wnaed bod llawer ar ôl i'w wneud.

Mewn ymateb i adroddiad y Comisiwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddau bapur ym mis Gorffennaf 2014<sup>26</sup>. Mae'r cyntaf ohonynt – *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru* – yn nodi agenda diwygio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus er mwyn 'gwella llesiant pobl ledled Cymru nawr ac yn y dyfodol'<sup>27</sup>. Mae'r papur yn cymeradwyo argymhellion cyffredinol y Comisiwn sy'n dweud 'o edrych arnynt gyda'i gilydd ... cam pwysig a rhesymegol nesaf o ran diwygio', er yn cydnabod 'nid yw'n hawdd i lawer mewn gwasanaethau cyhoeddus ddarllen canfyddiadau'r Comisiwn'<sup>28</sup>.

---

<sup>23</sup> Ibid. t.98

<sup>24</sup> Ibid., t.99

<sup>25</sup> Ibid., t.104

<sup>26</sup> Ynghyd â thrydydd papur yn trafod cynyddu pwerau Llywodraeth Cymru.

<sup>27</sup> Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Pobl Cymru, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2014, t.7

<sup>28</sup> Ibid., t.8

Mae'r papur yn gosod gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sydd - yn unol â pholisi cynharach Llywodraeth Cymru - yn tanlinellu 'mae angen i wasanaethau cyhoeddus gael eu darparu'n fwyfwy **gyda** phobl yn hytrach nag i bobl ... cynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, gan gydnabod cryfderau pobl ac addasu gwasanaethau'n briodol'<sup>29</sup>. Mae'r weledigaeth hefyd yn tanlinellu angen 'gweithredu'n gynt i helpu pobl i gymryd camau i atal problemau a gwella'u bywydau, yn hytrach na dim ond adweithio pan fydd pethau'n mynd o chwith' a 'rhoi anghenion pobl yn gyntaf, gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid i weithio fel 'un gwasanaeth cyhoeddus'.<sup>30</sup>

Mae'r papur yn cymeradwyo'r angen i ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru ac yn mynegi ffafriaeth i'r model 12-awdurdod a gynigir gan y Comisiwn, er nad yw'n gwrthod cynigion eraill<sup>31</sup>. Mae'n tanlinellu ymrwymiad i 'ad-drefnu a datblygu partneriaethau cryfach gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill a sicrhau bod y partneriaethau a'r trefniadau cydweithredu presennol yn cyd-fynd â ffiniau'r awdurdodau lleol newydd a phartneriaid darparu eraill ac yn sôn am bwysigrwydd canolog parhaol Byrddau Gwasanaethau Lleol yn y trefniadau newydd<sup>32</sup>.

Mae'r papur yn tanlinellu pwysigrwydd bil arfaethedig Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gan ddweud y bydd yn sefydlu set lai o nodau canlyniadau cenedlaethol y bydd angen i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaethau eu hystyried<sup>33</sup>.

Mae'r papur hefyd yn tanlinellu:

'mae angen i wasanaethau cyhoeddus arloesi a cheisio gwella'n barhaus i ragweld ac ymateb i newidiadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yng Nghymru. Mae angen annog creu modelau newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ... ac mae angen inni ddod

---

<sup>29</sup> Ibid., t.10

<sup>30</sup> Ibid.

<sup>31</sup> Ibid., t.14

<sup>32</sup> Ibid.

<sup>33</sup> Ibid., t.19

o hyd i ffyrdd newydd o fynd ati i reoli'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn hytrach nag ymateb i hyn mewn ffordd oddefol'<sup>34</sup>.

Mae'n dadlau y byddai hyn yn galw am addasu gwasanaethau'n agosach i anghenion unigol:

'Wrth wraidd hyn mae'r hyn a elwir gan lawer yn gydgynhyrchu: y cysyniad o gynnwys pobl a chymunedau yn wirioneddol yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan werthfawrogi eu cryfderau ac addasu dulliau gweithredu yn briodol. Yn y dyfodol bydd angen i wasanaethau cyhoeddus fod yn fenter ar y cyd rhwng y defnyddiwr a'r gwasanaeth ar sail egwyddorion cydgynhyrchu'<sup>35</sup>.

Yn y cyd-destun yma, mae'r papur yn ymrwymo 'parhau i weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector a thu hwnt, i'r perwyl hwn, a byddwn yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar ddatblygu cyd-gynhyrchu yng Nghymru yn ddiweddarach eleni'<sup>36</sup>. Mae'r papur hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i 'annog y trydydd sector i wireddu ei lawn botensial o ran cefnogi gwasanaethau cyhoeddus' er heb sôn yn benodol am ddylunio a darparu) ac yn sôn am nifer o astudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau o integreiddio darpariaeth gwasanaeth yn llwyddiannus, gyda dau ohonynt yn sôn yn benodol am rôl partneriaid trydydd sector'<sup>37</sup>.

Mae'r ail bapur, *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol* yn ddogfen ymgynghori sy'n canolbwyntio'n gulach ar lywodraeth leol yng Nghymru gyda dyddiad cau ar gyfer ymatebion o 1 Hydref 2014 (gan ddangos fod yr amserlen uchelgeisiol iawn ar gyfer newid a osodwyd gan y Comisiwn eisoes wedi llithro).

Mae'r Papur Gwyn yn:

- Tanlinellu pwysigrwydd ymyriad cynnar i ostwng gofynion am wasanaethau aciwt a mwy o ymgysylltu gyda dinasyddion ar ddyluniad

---

<sup>34</sup> Ibid., t.21

<sup>35</sup> Ibid., t.22

<sup>36</sup> Ibid.

<sup>37</sup> Ibid., t. 23-30

gwasanaethau<sup>38</sup>, er nad yw'n cyfeirio at y trydydd sector fel y cyfryw yn ei drafodaeth o sut i gryfhau llywodraethiant cymunedol<sup>39</sup>;

- Cadarnhau'r angen am system gryfach o graffu ar gyfer llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill<sup>40</sup>;
- Tanlinellu pwysigrwydd partneriaeth a chydweithio yn cynnwys gyda'r trydydd sector ac yn fwy neilltuol rôl y Byrddau Gwasanaethau Lleol gan ddweud fod ganddynt 'rôl hanfodol o ran dod â sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd' a bod angen ad-drefnu fel y nodir gan y Comisiwn ac y cynigir hynny drwy fil arfaethedig Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<sup>41</sup>;
- Cymeradwyo'r angen i ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru ond yn dadlau nad oes digon o amser i basio deddfwriaeth cyn yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mai 2016, tra'n addo cyhoeddi drafft Fil er ymgynghori yn hydref 2015<sup>42</sup>;
- Rhagweld y byddai awdurdodau newydd yn dod i fodolaeth ar 1 Ebrill 2020 ond yn ymrwmo i ddeddfu i ganiatáu uno gwirfoddol cyn hynny<sup>43</sup>.

### 2.3 Cynllun Trydydd Sector

#### **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL**

Mae'r Cynllun Trydydd Sector newydd yn cadarnhau fod mewnbwn i ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn un o swyddogaethau craidd Cynghorau Gwirfoddol Sirol a bod cyllid Llywodraeth Cymru yn anelu i gefnogi hynny. Mae hefyd yn ymrwmo cefnogaeth barhaus i'r WCVA fel y corff seilwaith cenedlaethol, gyda chyfrifoldebau'n cynnwys rheoli'r Grant Seilwaith (sy'n ariannu Cynghorau Gwirfoddol Sirol).

Mae'r Cynllun hefyd yn ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal, defnyddio a hyrwyddo'r Cod Ymarfer presenol ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

<sup>38</sup> Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn - Diwygio Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2014, t.10

<sup>39</sup> Ibid., t.16

<sup>40</sup> Ibid., tt.14 - 15

<sup>41</sup> Ibid., t.18

<sup>42</sup> Ibid., tt.24 - 25

<sup>43</sup> Ibid., t. 26

Ynghyd â'r datblygiadau hyn, yn Ionawr 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun newydd ar gyfer y Trydydd Sector, yn diwygio'r Cynllun a ddaeth i rym yn 2004 ac yn dangos canlyniadau'r ymgynghoriad rhwng Mai ac Awst 2013 ar *Parhad a Newid: Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru*.

Mae'r Cynllun yn pwysleisio:

'gall y Trydydd Sector helpu i drawsnewid y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni gofynion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, drwy drin pobl a chymunedau fel asedau ac yn gyfartal wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, nid dim ond fel derbynwyr gwasanaethau. Mae rhai pobl yn disgrifio hyn fel 'cydgynhyrchu' ... Drwy'r Cynllun hwn byddwn yn gwneud yn siŵr bod y trefniadau ar gyfer gweithio gyda'r Trydydd Sector, ac ar gyfer cynllunio ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus, yn ategu agwedd newydd at wasanaethau cyhoeddus sy'n seiliedig ar gydgyhyrchu'<sup>44</sup>.

Mae'r Cynllun yn dynodi 'tri maes diddordeb pendant sy'n gorgyffwrdd, sy'n diffinio ac yn ffurfio diddordeb Llywodraeth Cymru yn y Trydydd Sector a'i chefnogaeth iddo'<sup>45</sup>:

- Cymunedau cryfach drwy ddefnyddio gwaith gwirfoddol;
- Gwell polisi drwy ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd y sector;
- Gwell gwasanaethau cyhoeddus drwy'r 'rôl arloesol a gweddnewidiol y gall y Sector ei chwarae i helpu gwasanaethau cyhoeddus i gyrraedd mwy o bobl ac i fod yn fwy sensitif i'w hanghenion'<sup>46</sup>.

Mae'r Cynllun yn ategu Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru ac yn tanlinellu rôl y trydydd sector 'i ganfod atebion ar y cyd gyda phobl a chymunedau'n gweithio gyda darparwyr gwasanaethau i ddylunio, darparu, monitro a gwerthuso'r gwasanaethau'<sup>47</sup>.

---

<sup>44</sup> Cynllun y Trydydd Sector, Llywodraeth Cymru, t.7

<sup>45</sup> Ibid, t.9

<sup>46</sup> Ibid. , t.9

<sup>47</sup> Ibid., t.17



Mae'r Cynllun hefyd yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar 'Seilwaith y Trydydd Sector' (yn cynnwys y WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddolwyr). Mae'n cydnabod 'bod angen cymorth ar y mudiadau hyn, ac mae'n ymroi i gynnal seilwaith cydlynus', tra'n tanlinellu y bydd angen i'r seilwaith 'ddatblygu'n unol â modelau newydd gwasanaethau cyhoeddus a strwythurau i gefnogi trefniadau gweithio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol'<sup>48</sup> (a gellid credu fod hynny'n awgrymu'r angen i ailstrwythuro Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn unol gydag unrhyw ad-drefnu llywodraeth leol yn y dyfodol). Mae'n nodi ei fod yn ystyried mai rôl y seilwaith yw:

- 'Galluogi mudiadau Trydydd Sector eraill i dyfu a datblygu;
- Cefnogi gwirfoddolwyr unigol a gweithredu gwirfoddol ar y cyd;
- Hyrwyddo llywodraethu da a diogel ar draws y Trydydd Sector;
- **Cynorthwyo i ddylunio a chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus;**
- **Rhoi llais a chynrychiolaeth i'r sector ehangach;**
- Rhannu arferion da ac arloesedd<sup>49</sup> [ychwanegwyd pwyslais].

Mae'r Cynllun hefyd yn ail-gadarnhau fod mewnbwn i ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn un o swyddogaethau craidd Cynghorau Gwirfoddol Sirol y bwriedir i gyllid Llywodraeth Cymru ei gefnogi. Mae hefyd yn ymrwymo cefnogaeth barhaus i'r WCVA fel y corff seilwaith cenedlaethol, gyda chyfrifoldebau'n cynnwys rheoli'r Grant Seilwaith (sy'n ariannu Cynghorau Gwirfoddol Sirol)<sup>50</sup>.

Mae'r Cynllun hefyd yn ailymrwymo Llywodraeth Cymru i 'gynnal, defnyddio a hyrwyddo' y Cod Ymarfer presennol ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector<sup>51</sup> a gynhwysir fel Atodiad i'r Cynllun.

---

<sup>48</sup> Ibid, t.19

<sup>49</sup> Ibid.

<sup>50</sup> Ibid., t. 22

<sup>51</sup> Ibid., t.5

### 3. CANFYDDIADAU

#### 3.1 Cyflwyniad

Yn yr Adran yma, adroddwn ar ein canfyddiadau o'r gwaith maes a gynhaliwyd yn yr ardaloedd astudiaeth achos, gan hefyd ddefnyddio'r canfyddiadau hyd yma o'r gwerthusiad o brosiect ehangach Byrddau Gwasanaethau Lleol - Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Drwy wneud hynny, anelwn adeiladu ar (ac nid ail-adrodd) y canfyddiadau yr adroddwyd arnynt ar y cam llinell sylfaen a'r broses ddechreuol, er ei bod yn anochel y bydd llawer o'r negeseuon a ddaw i'r amlwg yn debyg iawn.

Yn neilltuol, ar y cam hwn rydym wedi ceisio canolbwyntio sylw ar yr hyn y mae'r prosiect yn ei gyflawni, i ba raddau y mae'r uchelgeisiau ehangach ar gyfer y prosiect yn cael eu cyflawni, p'un ai gan y prosiect ei hunan neu drwy ddulliau arall a ddefnyddiwyd gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (gan ein bod yn cydnabod fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn ymarferol yn aml wedi defnyddio'r adnoddau a ddarparwyd gan y prosiect fel ffordd o ategu staff presennol oedd eisoes yn gwneud o leiaf ran o'r rôl a ragwelwyd ar gyfer swyddog Creu'r Cysylltiadau); yr hyn a ymddengys yn gynhwysion hanfodol llwyddiant lle mae hyn yn digwydd; ac i'r graddau nad yw'r uchelgeisiau ehangach hyn yn cael eu gwireddu, beth yw'r rhwystrau sy'n atal hyn.

Rydym wedi strwythuro'r Adran o amgylch model rhesymeg y prosiect a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect (gweler Ffigur 3.1 ar y dudalen nesaf). Rydym felly'n adrodd yn eu tro ar y pedwar maes thematig y disgwylir i'r prosiect ganolbwyntio arnynt sef cynrychiolaeth a gwybodaeth (Adran 3.2); mewnbwn i gynllunio gwasanaeth (Adran 3.3); mewnbwn i ddarparu gwasanaeth (Adran 3.4); a llais y dinesydd (Adran 3.5). Ym mhob un o'r adrannau hyn ystyriwn y gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau perthnasol, er ei bod yn bwysig tanlinellu mai dim ond yn y gwerthusiad terfynol y cynhelir adolygiad o feintioliad yr allbynnau. Ar ôl yr isadrannau hyn, ystyriwn y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar effaith (Adran 3.6), amlygu elfennau arfer da a gefnogodd y prosiect i gyflawni (Adran 3.7) a'r rhwystrau a gafwyd (Adran 3.8).

Mewnbynnau/ Adnoddau	Gweithgareddau	Allbynnau	Canlyniadau	Effaith
	<b>Cynrychiolaeth a gwybodaeth</b>			
	Sicrhau cynrychiolaeth y sector yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol a grwpiau allweddol	Lledaenu cynlluniau a chynnyrch		
	Rhoi gwybodaeth ar ddatblygiadau gwasanaeth cyhoeddus i gyrff trydydd sector	Cynlluniau i gefnogi datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol	Y trydydd sector yn fwy gwybodus	
	<b>Mewnbyn i gynllunio gwasanaethau</b>			
15 swyddog Creu'r Cysylltiadau mewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol	Hwyluso mewnbyn o'r trydydd sector i gynllunio gwasanaethau lleol (drwy drefnu cysylltiadau)	Trefniadau cydweithio rhwng y sector cyhoeddus/trydydd sector	Cynyddu gallu'r trydydd sector i dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus	Symud tuag at ymyriadau cynnar i ostwng yr angen am wasanaethau aciwt
	Hyfforddiant i alluogi gyrff trydydd sector i ymgysylltu'n effeithlon mewn cynllunio gwasanaethau	Secondiadau rhwng y trydydd sector/sector cyhoeddus		
		Sefydliadau a hyfforddwyd mewn cynllunio gwasanaethau		
Rheolaeth llinell gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol	<b>Mewnbyn i ddarpariaeth gwasanaeth</b>			
1.9 staff rheoli prosiect cyfwerth ag amser llawn yn y WCVA	Darparu cyngor a help i ddarparwyr posibl o'r trydydd sector		Cyrff trydydd sector yn fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd.	Gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn cael eu dylunio a'u darparu'n fwy effeithlon
	Hyfforddiant/cymorth i sicrhau y gall gyrff trydydd sector dendro (cyfle cyfartal, polisïau amgylcheddol ac ati)	Hyfforddi/cefnogi gyrff i gyfradd safonau caffaeliad	Cynydd yn nifer y gyrff trydydd sector sy'n fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithredu.	
	Cefnogi/trefnu mentrau ar y cyd rhwng gyrff trydydd sector	Cytundebau cydweithredu o fewn y trydydd sector		
Cefnogaeth rheolaeth prosiect o Lywodraeth Cymru	<b>Llais y dinesydd</b>			Trydydd sector mwy cynaliadwy
	Trefnu digwyddiadau/gweithgareddau i alluogi dinasyddion i gymryd rhan mewn cynllunio gwasanaethau cyhoeddus			
	Cefnogi grwpiau defnyddwyr gwasanaeth i roi mewnbyn i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus	Trefnu/mynychu digwyddiadau ymgynghori		
	Cefnogi gyrff trydydd sector i ymgysylltu'n effeithlon gyda defnyddwyr gwasanaethau	Hyfforddi gyrff (trydydd sector/sector cyhoeddus) mewn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth/cynllunio cyfranogol	Cynyddu gallu'r trydydd sector i ymgysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaethau	
	Gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i annog dulliau cynllunio cyfranogol			

### 3.2 Cynrychiolaeth a Gwybodaeth

#### **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL**

Bu cynrychiolaeth a gwybodaeth yn elfen allweddol o'r rhan fwyaf o waith swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn yr astudiaethau achos.

Fel arfer mae swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi cynrychioli'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar weithgareddau'n gysylltiedig â'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a bu ganddynt weithiau hefyd rôl yn nhermau partneriaethau a fforymau eraill (sy'n parhau mewn bodolaeth er barn Llywodraeth Cymru y dylai'r Byrddau Gwasanaethau Lleol eu had-drefnu).

Yn ardal un astudiaeth achos, yn neilltuol, bu'r swyddog Creu'r Cysylltiadau yn ganolog wrth sefydlu system ar wefan i wella cynrychiolaeth ehangach y trydydd sector mewn partneriaethau o'r fath ar draws yr ardal..

Fodd bynnag, caiff gallu swyddogion Creu'r Cysylltiadau i gynrychioli'r holl drydydd sector yn aml ei gwestiynu oherwydd barn (o fewn cyrff statudol a rhai cyrff mwy yn y trydydd sector) nad yw'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol eu hunain yn siarad ar ran holl gyrrff y trydydd sector.

Mae swyddogion Creu'r Cysylltiadau hefyd wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau i godi ymwybyddiaeth am waith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn eu hardaloedd a rhoi gwybodaeth am hynny. Fodd bynnag, ni ymddengys fod hyn wedi arwain at lefelau uchel o ymwybyddiaeth o waith y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl.

Mae hyn oherwydd amrywiaeth o ffactorau, yn bennaf y canfyddiad fod Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gweithredu ar lefel ac mewn ffordd heb fawr o berthnasedd uniongyrchol i weithgareddau dydd-i-ddydd y rhan fwyaf o gyrrff trydydd sector.

Bu hyn yn elfen allweddol o rôl swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn o leiaf bedair o ardaloedd ein hastudiaethau achos (y cyfan heblaw un, lle mai ychydig o ymgyfraniad uniongyrchol fu gan swyddog Creu'r Cysylltiadau gyda phrosesau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'i is-grwpiau).

### 3.2.1. Gweithgareddau

Yn nhermau *sicrhau cynrychiolaeth y sector yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a grwpiau allweddol*, mae'n bwysig yn gyntaf oll i nodi ym mhob ardal, mai'r Prif Swyddog o'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol ei hunan sy'n mynychu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (ac mewn llawer o achosion, ni chaniateir i neb arall fynychu).

Fodd bynnag, mewn pedair o'r ardaloedd astudiaeth achos bu'r swyddog Creu'r Cysylltiadau yn weithgar mewn is-grwpiau neu weithgorau'n adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Felly, mewn un ardal, mae swyddog Creu'r Cysylltiadau'n cynrychioli'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol ar y Gweithgor Swyddogion sy'n eistedd o dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol tra mewn un arall, mae'r swyddog wedi cynrychioli'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar nifer o weithgorau, yn cynnwys un sydd â'i ffocws ar gymunedau. Mewn trydydd, mae'r swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi cynrychioli'r sector ar is-grwpiau gyda ffocws ar ymgysylltu a dadansoddi anghenion ac, yn achos yr is-grŵp ymgysylltu, ystyrir (gan yr awdurdod lleol yn ogystal â gan gyfweleion o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol) y bu ganddo rôl sylweddol wrth sicrhau effeithlonrwydd y grŵp, yn cynnwys drwy hybu adolygiad diweddar o'r ffordd y mae'n gweithio.

Yn fwy cyffredinol, yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudiaeth achos - ac yn bendant mewn tair ohonynt - mae'n glir, er disgwyliad Llywodraeth Cymru y byddai'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ymarferol yn dod yn gyfrifol am swyddogaethau'r ystod eang o bartneriaethau a fodolai'n flaenorol, mae'r partneriaethau hyn un ai wedi parhau i weithredu neu wedi eu hail-ddyfeisio. Felly, mewn un ardal, cafodd y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc ei ail-ffurfio'n ddiweddar, ar ôl i'r cyn Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ddod i ben yn 2012, a

oedd yn ôl un o'r cyfweleion 'yn edrych yn union yr un fath' â'r Bartneriaeth flaenorol. Yn yr un ardal, roedd ystod gyfan o gyrff partneriaeth yn gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol, y mae'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ystyried eu bod yn cael ei gyrru i raddau helaeth gan y Bwrdd Iechyd Lleol a heb fod yn perthyn yn agos i waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn parhau i gwrdd. Yn yr un modd, yn ardal ail astudiaeth achos, mae'r Bwrdd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant a Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn parhau i gwrdd (er dan deitlau ychydig yn wahanol) er yn fwy cyffredinol, soniodd Prif Weithredwr y Cyngor Gwirfoddol Sirol am y tueddiad i fforymau newydd, megis Fforwm Tlodi, 'neidio lan'.

Bu cryn amrywiaeth yn yr ardaloedd achos o ran ymgyfraniad swyddogion Creu'r Cysylltiadau wrth sicrhau cynrychiolaeth y sector yn y partneriaethau eraill hyn. Yn ardal un astudiaeth achos, bu ffocws allweddol swyddog Creu'r Cysylltiadau ar greu system effeithlon ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth y sector ar ystod eang o fforymau ar draws yr ardal awdurdod lleol a darparu dull seiliedig ar y we i gynrychiolwyr adrodd yn ôl iddo (a hyd yn oed gael eu 'hethol'). Yn yr ardal yma, mae'r swyddog Creu'r Cysylltiadau hefyd ei hunan wedi cynrychioli'r sector ar ystod eang o fforymau a bu ganddo rôl allweddol wrth hyrwyddo'r Fforwm Trydydd Sector a fodolai eisoes, gan gymryd gofal o'r agendâu a threfniadau ymarferol.

Mewn ardal arall hefyd, bu swyddog Creu'r Cysylltiadau yn ganolog yn fwy diweddar wrth sefydlu bwrdd ymgynghori (wrth ochr fforwm a fodolai eisoes) gyda'r diben penodol o gasglu a chyflwyno barn y trydydd sector yng nghydestun y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Mewn ardaloedd eraill, mae swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi cymryd rhan mewn ffordd fwy ysbeidiol neu rannol, yn aml yn llenwi bylchau a ddaeth i'r amlwg yn strwythurau staffio'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol neu'n cefnogi gwaith cydweithwyr o fewn y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, efallai'n fwyaf

amlwg y Cydlynwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant<sup>52</sup>, sydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn parhau fel swyddi llawn-amser o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a ariennir gan y Byrddau Iechyd Lleol. Felly mewn un, daeth swyddog Creu'r Cysylltiadau yn gyfrifol am hwyluso Fforwm Trydydd Sector Plant a Phobl Ifanc, sy'n cyflawni swyddogaeth wrth ledaenu gwybodaeth a hefyd yn galluogi'r Cyngor Gwirfoddol Sirol i gynrychioli barn y cyrff trydydd sector yn y Bwrdd Partneriaeth a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn fwy effeithlon. Mewn ardal arall, mae swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi cynorthwyo staff eraill y Cyngor Gwirfoddol Sirol i hwyluso gwaith fforymau tebyg yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol a hefyd blant a phobl ifanc.

Fodd bynnag, ym mhob ardal astudiaeth achos, cododd cyfweleion (yn neilltuol y rhai yn y sector statudol) amheuan am i ba raddau y gallai ac yr oedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol (ac felly drwy estyniad y swyddog Creu'r Cysylltiadau) yn cynrychioli'r holl drydydd sector, efallai'n adlewyrchu consyrn a amlygwyd yn y Gwerthusiad Interim o brosiect ehangach Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Cronfa Gymdeithasol Ewrop, lle soniodd rhanddeiliaid cenedlaethol am bryderon am 'ddarnio' y sector<sup>53</sup>.

Mewn rhai achosion, roedd cyfweleion awdurdodau lleol yn amheus i ba raddau y gellid dibynnu ar y Cynghorau Gwirfoddol Sirol i gynrychioli'r sector ehangach, gydag un swyddog, er enghraifft, yn dadlau mai corff aelodaeth oedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol ac nad oedd yn cynrychioli llawer o'r cyrff trydydd sector oedd yn weithgar yn yr ardal. Mewn ardal astudiaeth achos arall, mae'r awdurdod lleol wedi helpu i sefydlu Fforwm Menter Gymdeithasol ar wahân, sydd yn fwriadol wedi eithrio'r Cyngor Gwirfoddol Sirol rhag bod yn aelod: credai un o'r cyfweleion yma y caiff y Cyngor Gwirfoddol Sirol ei ystyried 'fel corff ar gyfer grwpiau bach ... ac ar gyfer pobl sydd eisiau gwirfoddoli' yn hytrach na 'mentrau cymdeithasol' sy'n anelu i ddylanwadu a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

---

<sup>52</sup> Mae gan y rhain wahanol deitlau mewn gwahanol ardaloedd

<sup>53</sup> Gwerthusiad o Brosiect Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Cronfa Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Llywodraeth Cymru, Mai 2014, t. 4

Mewn trydedd ardal, er bod y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gyffredinol dda, roedd swyddogion hefyd yn bryderus nad oedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cynrychioli 'mentrau cymdeithasol, yn arbennig y rhai yn fwy ar yr ochr fenter' ac mewn pedwaredd ardal, roedd partneriaid yn gwerthfawrogi gwerth cyfraniad Cyngorau Gwirfoddol Sirol (a gafodd yn yr achos yma ei wneud bron yn llwyr gan y Prif Swyddog) ond hefyd yn cydnabod mai dim ond un rhan o'r trydydd sector yr oedd yn ei gynrychioli h.y. cyrff llai o ran maint a hefyd lai arbenigol.

Cafodd yr amheuon hyn hefyd eu hadleisio i ryw raddau gan rai cyfweleion o fewn y trydydd sector ei hunan - gyda chyrff mwy yn neilltuol yn debyg o gwestiynu i ba raddau yr oedd Cyngorau Gwirfoddol Sirol (ac felly swyddogion Creu'r Cysylltiadau) yn eu cynrychioli nhw. Roedd hyn yn bendant yn wir gydag un cyfwelai o gorff mawr (gyda chytundebau lefel gwasanaeth sylweddol gyda'r awdurdod lleol a hefyd y Bwrdd Iechyd Lleol) a oedd yn neilltuol o feirniadol o'r ffaith (a gydnabuwyd gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol) bod y Cyngor Gwirfoddol Sirol ei hunan yn aml yn darparu gwasanaethau, a allai mewn rhai achosion fod yn gwasgu allan sefydliadau unigol yn y trydydd sector. Teimlai'r cyfwelai yma nad oedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cynrychioli'r sector yn effeithlon, gan ddadlau bod Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn fwy cyffredinol wedi colli eu ffordd, ac nad oedd mwyach yn glir beth yw eu diben. Cafodd sylwadau tebyg, er mewn ffordd lai grymus, eu hadleisio gan eraill e.e. gan gorff maint canolig yn yr un ardal (oedd eto yn feirniadol o dueddiad y Cyngor Gwirfoddol Sirol i ddarparu gwasanaethau) a gan gyrff trydydd sector mewn o leiaf ddwy ardal arall, ac mewn pedwaredd ardal perthynas gyfyngedig iawn oedd gan gyfweleion mewn tri chorff trydydd sector gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol.

Yn nhermau *darparu gwybodaeth ar ddatblygiadau gwasanaeth cyhoeddus i gyrff trydydd sector*, bu hyn eto yn elfen fawr o waith swyddog Creu'r Cysylltiadau mewn ardal un astudiaeth achos lle (fel y nodwyd eisoes) gwnaed llawer o ymdrech i greu'r 'seilwaith' o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol i alluogi cynrychiolwyr trydydd sector mewn ystod eang o bartneriaethau a fforymau i adrodd yn ôl i'r sector ehangach. Ymysg pethau eraill, mae hyn



wedi cynnwys creu gwefan sy'n rhoi manylion trefniadau partneriaeth lleol a fforymau a hefyd yn rhoi gwybodaeth i gefnogi cynrychiolwyr trydydd sector arnynt. Mae'r safle hefyd yn arloesi drwy alluogi pobl i bleidleisio i ethol cynrychiolwyr ar fforymau ac mewn partneriaethau lle hysbysebir lleoedd gwag.

Mewn mannau eraill, ystyrid bod darpariaeth gwybodaeth yn neilltuol ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol hefyd yn elfen o waith swyddog Creu'r Cysylltiadau mewn tair ardal arall, er yn yr holl ardaloedd hyn, ystyrid fod yr elfen yma o'r rôl yn anodd oherwydd yr hyn a welid fel datgysylltiad rhwng gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a chomisiynu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Felly, mewn un ardal, cydnabuwyd yn eang (nid dim ond o fewn y trydydd sector) i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ei chael yn anodd canfod ei ffordd, gydag ad-drefnu sylweddol yn digwydd ar hyn o bryd:

'mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar bwynt lle mae pobl yn deall nad yw'n gweithio fel y disgwyliid iddo ... er na chredaf ei fod yn wahanol i lawer o Fyrddau Gwasanaeth Lleol eraill yng Nghymru' [cyfwelai o'r sector cyhoeddus].

Yn yr un modd, mewn ail ardal astudiaeth achos, teimlai'r swyddog Creu'r Cysylltiadau ei bod yn dod yn gynyddol anodd ennyn diddordeb cyrff trydydd sector yng ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, er y cydnabuwyd yn eang fod busnes y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar lefel oedd yn ei gwneud yn anodd i sefydliadau gyda ffocws ar weithredu i weld ei berthnasedd:

'mae popeth am dderbyn cyflwyniadau gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a derbyn adroddiadau gan lawer o is-grwpiau' [cyfwelai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol].

Mewn trydedd ardal cydnabuwyd yn eang fod y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gynyddol ddieithredig o waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyda'i Brif Swyddog yn credu ei fod yn gweithio mewn ffordd oedd yn ymylu mewnbynau'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a'r trydydd sector yn fwy cyffredinol.

### 3.2.2 Allbynnau

Yn nhermau *cynnyrch a chynlluniau lledaenu*, mae monitro gan y WCVA yn cadarnhau mai dyma'r maes lle bu'r prosiect yn fwyaf llwyddiannus yng nghyswllt ei dargedau ffurfiol, gyda thua 214 o gynlluniau lledaenu wedi'u cofnodi o gymharu â tharged o 15 ar draws yr holl brosiect, gyda 84 wedi'u cofnodi yn y pum ardal astudiaeth achos yn unig.

Mae'r datblygiadau mwyaf sylweddol unwaith eto yn yr ardaloedd astudiaeth achos lle mae swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi datblygu gwefan bwrpasol, er yn gysylltiedig â gwefan y Cyngor Gwirfoddol Sirol, i hwyluso cynrychiolaeth y sector ac i sicrhau y caiff gwybodaeth ar ddatblygiadau o fewn ystod eang o bartneriaethau a fforymau ei bwydo'n ôl i'r sector yn fwy cyffredinol.

Roedd yr adborth ar hyn yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn o fewn y trydydd sector a hefyd gan gyfweleion eraill, gyda llawer o sôn am y wefan fel arfer da.

Ar yr un pryd, mynegwyd rhai amheumon am ddoethineb sefydlu gwefan benodol, ar wahân i (er wedi'i chysylltu ag) un y Cyngor Gwirfoddol Sirol, gyda nifer o gyfweleion o'r sector statudol a hefyd y trydydd sector yn dadlau fod hyn yn colli cyfle yn nhermau codi proffil ac ymwybyddiaeth o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol.

Yn yr un ardal, roedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi bod yn lledaenu gwybodaeth drwy bapur newydd a gynhyrchwyd gan aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (mae swyddog Creu'r Cysylltiadau yn aelod o'r gweithgor sy'n cynhyrchu'r cyhoeddiad) a thrwy gylchlythyr cenedlaethol Creu'r Cysylltiadau (a ddosberthir yn eang o fewn yr ardal), anfon newyddion ar e-bost i restr gylchredeg eang (drwy MailChimp) a rhoi diweddariad rheolaidd ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn Fforwm y Trydydd Sector (a dyfodd yn sylweddol o ran nifer y cyrff sy'n mynychu).

Mewn ardaloedd eraill, mae swyddogion hefyd wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau a chynnyrch i ledaenu gwybodaeth am agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn neilltuol. Felly, mewn ail ardal astudiaeth achos, bu swyddog Creu'r Cysylltiadau yn gyfrifol am ddarparu deunydd am ddatblygiadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar wefan y Cyngor Gwirfoddol Sirol (sydd yn awr â thudalennau arbennig am y Bwrdd Gwasanaethau Lleol) ac i gylchlythyr y Cyngor Gwirfoddol Sirol a chafodd hefyd ei weld fel adnodd ar gyfer staff eraill o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol. Mewn trydedd ardal, anfonodd swyddog Creu'r Cysylltiadau daflen am y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, cyfrannodd yn rheolaidd at gylchlythyr y Cyngor Gwirfoddol Sirol a rhoi deunydd ar gyfer ei wefan.

Bu cyfarfodydd unigol a sesiynau gwybodaeth gyda chyrrff trydydd sector hefyd yn rhan bwysig o waith Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudiaeth achos, gyda hyn yn neilltuol o amlwg mewn tair ardal. Mae cyfarfodydd o'r fath wedi rhoi cyfle i swyddogion Creu'r Cysylltiadau esbonio gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a hefyd i gasglu gwybodaeth ar safbwyntiau'r corff ar faterion allweddol yn ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, byddai'n ymddangos nad yw cyfarfodydd o reidrwydd wedi mynd lawer tu hwnt i gyfnewid dechreuol ar wybodaeth: er enghraifft, dywedodd un o'r cyrrff a gyfwelwyd iddynt gael cyfarfod cyflwyno defnyddiol gyda swyddog Creu'r Cysylltiadau, ond mai'r cyfan oedd mewn gwirionedd oedd cyfle i newid sylwadau cyffredinol.

Efallai fod llai o enghreifftiau o *gynlluniau i gefnogi datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol* gan Creu'r Cysylltiadau (ni chofnodwyd dim ar y system fonitro yn unrhyw un o'r ardaloedd astudiaeth achos). Mewn un ardal, fel y nodwyd eisoes, ystyrir y bu gan swyddog Creu'r Cysylltiadau rôl bwysig wrth gyd-gadeirio is-grŵp Ymgysylltu y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, gyda hyn yn cynnwys helpu i drefnu adolygiad diweddar o rôl, cylch gorchwyl a dull gweithredu'r is-grŵp (yn cynnwys defnyddio Cyfranogaeth Cymru i hwyluso gweithdy a helpodd i ddynodi ffordd ymlaen). Yn fwy cyffredinol yn yr ardal

yma, ystyrid y bu gan Swyddog Creu'r Cysylltiadau rôl bwysig wrth ddynodi a hwyluso cynrychiolwyr unigol o'r trydydd sector i fynychu sesiynau penodol o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu ei is-grwpiau (e.e. ar drais domestig), ac yn ei dro ystyrid bod hynny wedi ychwanegu gwerth a dyfnder i'r trafodaethau ar y materion hyn.

### 3.2.3 Canlyniadau

Er ymdrechion swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn nhermau cynrychiolaeth a gwybodaeth, nid yw'n glir os yw hynny wedi arwain at i'r *trydydd sector fod yn fwy gwybodus* am agenda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudiaeth achos, cawsom nad oedd y rhan fwyaf o gyrff trydydd sector y gwnaethom siarad â hwy yn wybodus iawn am ddatblygiadau o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac mai cymharol ychydig wybodaeth o'r Cynllun Integredig Sengl oedd ganddynt. Felly, mewn ardal un astudiaeth achos, dywedodd hyd yn oed gyfwelai a oedd ei hunan wedi cymryd rhan mewn trafodaeth thematig yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol mai ychydig o wybodaeth oedd ganddi o waith y Bwrdd:

"Rwy'n teimlo'n bell iawn ohono, wn i ddim beth sy'n digwydd yno"

Mewn ardal arall, lefelau isel o ymwybyddiaeth o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol oedd gan bob un o'r tri chorff unigol o'r trydydd sector a gyfwelwyd, nid oeddent wedi bod mewn cyswllt ag ef yn flaenorol ac ni wyddent ddigon amdano i wneud hynny ar hyn o bryd.

Byddai'n ymddangos fod nifer o resymau am y ffaith nad oedd gweithgaredd ar ran swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi trosi i'r canlyniad a ddymunid. Efallai mai'r rheswm pwysicaf yw barn eang fod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gweithredu ar lefel ac mewn ffordd nad yw o fawr o berthnasedd uniongyrchol i weithgareddau dydd-i-ddydd y rhan fwyaf o gyrff trydydd sector, fel mai ychydig o gymhelliant sydd i gael mynediad i'r wybodaeth sydd ar gael.

Yn ail, mae'r ffaith nad oes gan lawer o gyrff trydydd sector ddigon o amser i ymwneud ag unrhyw beth heblaw gofynion gweithredol eu rôl - yn neilltuol

pwysau ar i waered mewn cyllid ac yn aml fwy o alw am wasanaethau (yn gysylltiedig â chynnydd mewn tloidi): 'does gennym ni ddim digon o amser i bori drwy ddogfen pdf 32 tudalen' [corff trydydd sector].

Yn drydydd, fel yr awgrymir hefyd gan y dyfyniad uchod, nid yw'n ymddangos fod y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir bob amser wedi bod yn gydnaws ag anghenion y sector.

Yn olaf, ymddengys mai proffil isel sydd gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudiaeth achos - ac yn bendant mewn tair ohonynt. Yn wir, yn un o'r ardaloedd hyn, dim ond ychydig o ymwybyddiaeth a chyswllt gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn fwy cyffredinol fu gan dri chyfwelai o'r cyrff trydydd sector oedd bob un wedi bod â pheth ymwneud gyda darparu gwasanaethau cyhoeddus: roeddent wedi clywed amdano, ac yn adnabod un neu ddau o unigolion ynddo, ond ni ddywedodd dim un ohonynt eu bod yn derbyn gwybodaeth ganddo yn rheolaidd (er nad oedd yn glir os oedd hyn oherwydd cyfathrebu o fewn eu corff eu hunain neu oherwydd effeithlonrwydd cyswllt y Cyngor Gwirfoddol Sirol). Roedd cysylltiad cyfyngedig gyda'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol hefyd yn nodwedd rhai o'r cyrff mwy a gyfwelwyd mewn manau eraill.

Ar y llaw arall, mewn un ardal ymddangosai fod lefelau da o ymgysylltiad rhwng y cyrff trydydd sector a gyfwelwyd â'r Cyngor Gwirfoddol Sirol, a lefel resymol o ymwybyddiaeth o swyddog Creu'r Cysylltiadau a'i rôl.

### **3.3 Mewnbwn i Gynllunio Gwasanaethau**

#### ***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Ni fu mewnbwn i gynllunio gwasanaeth yn nodwedd sylweddol o weithgaredd Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudiaeth achos a dangosir hynny gan y ffaith mai ychydig o allbynnau a gofnodwyd yn nhermau cytundebau cydweithio gyda'r sector cyhoeddus a secondiadau.

Mewn dwy ardal, fodd bynnag, bu trefnu cysylltiadau i hwyluso mewnbynau trydydd sector i gynllunio gwasanaeth yn rhan bwysig o waith y swyddogion ac yn y ddwy ardal yma, tybir i Creu'r Cysylltiadau fod â rôl gadarnhaol, os cymedrol, wrth gynyddu gallu'r sector i fwydo i gynllunio o'r fath.

Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, mae barn gref o'r tu mewn i'r sector yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudiaeth achos fod diffyg parodrwydd ar ran awdurdodau lleol i ymwneud â thrafodaethau ystyrion gyda'r sector am siâp gwasanaethau yn cyfyngu'n helaeth ar botensial swyddogion Creu'r Cysylltiadau a'r sector yn fwy cyffredinol i ddylanwadu ar gynllunio gwasanaethau.

Mewn rhai ardaloedd, ystyrir y gwaethygyd hyn gan ddefnydd cynyddol o gaffaeliad cyhoeddus a phryderon y gallai caniatu i gyrff trydydd sector, a allai gyflwyno cynnig i ymateb i ymarferion caffaeliad o'r fath, gymryd rhan mewn trafodaethau blaenorol am gomisiynu fod yn wrthdaro diddordeb.

Ystyrir fod y berthynas rhwng Byrddau Iechyd Lleol a'r trydydd sector yn gyffredinol rywfaint yn fwy cadarnhaol, ond mae'r mewnbwn gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol yma'n fwy aml yn ganlyniad gwaith cydlynwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles na swyddog Creu'r Cysylltiadau.

Bu'r mewnbwn i gynllunio gwasanaeth yn llai o nodwedd yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudiaeth achos. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu anawsterau pontio'r blwch rhwng ffocws strategol lefel-uchel y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (mewn llawer o achosion, heb fawr o dystiolaeth uniongyrchol fod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ei hunan yn ymwneud â manylion cynllunio gwasanaethau cyhoeddus) a phryderon gweithredol y rhan fwyaf o gyrff trydydd sector. Mae hefyd yn ymwneud â'r gred mewn o leiaf ddwy o'r ardaloedd ei bod yn well mai staff uwch o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol sy'n ymgymryd â'r rôl o ddylanwadu ar swyddogion uwch yn y sector cyhoeddus, y maent yn eu hadnabod eisoes:

*'Rhyngom [Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor Gwirfoddol Sirol] mae popeth fwy neu lai wedi'i drefnu' [cyfwelai Cyngor Gwirfoddol Sirol].*

### 3.3.1 Gweithgareddau

Ar ôl dweud hyn, bu hwyluso mewnbwn gan y trydydd sector i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus drwy drefnu cysylltiadau yn rhan gymharol bwysig o rôl nifer o swyddogion Creu'r Cysylltiadau.

Yn fwyaf arbennig mewn ardal un astudiaeth achos, mae swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi cyfrannu at nifer o gynlluniau allweddol yn gysylltiedig â'r Cynllun Integredig Sengl, yn cynnwys un yn ymwneud â sicrhau gwell cydlynu rhwng gwasanaethau cynghori yn yr ardal ac ail yn defnyddio mewnbwn cyrff statudol a hefyd gyrff trydydd sector i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol ac felly ostwng y gofynion cynyddol ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol statudol. Ystyriai cyfweleion bod rôl swyddog Creu'r Cysylltiadau yn y cynllun olaf hwn wedi cynnwys llunio cyfeiriadur o wasanaethau a gynigir gan y sector statudol a'r trydydd sector yn hollbwysig, gyda llwyddiant y prosiect yn dibynnu ar rwydweithiau cryf y Cyngor Gwirfoddol Sirol gyda chyrrff trydydd sector a hefyd gyrff sector cyhoeddus.

Mewn ardal arall, mae'n amlwg y bu gan y system a roddwyd ar waith i gydlynu cynrychiolaeth trydydd sector ar ystod eang o bartneriaethau ran bwysig wrth hwyluso mewnbwn y sector i ddylunio gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â sicrhau llif gwybodaeth o'r partneriaethau hyn i'r sector. Ymhellach, bu gan swyddog Creu'r Cysylltiadau yn yr ardal yma rôl allweddol wrth wasanaethu a hyrwyddo Fforwm Trydydd Sector a fu mewn bodolaeth ers rhai blynyddoedd ond lle gwelwyd cynnydd mawr mewn gweithgaredd a lefelau presenoldeb diolch i fewnbwn swyddog Creu'r Cysylltiadau. Dywedodd cyfweleion fod y Fforwm yn gyfle i gyrff drafod materion oedd yn bwysig i'r trydydd sector ac i'w llais gael ei glywed: caiff materion a godir yn y Fforwm eu bwydo'n ôl yn rheolaidd i bartneriaid sector cyhoeddus drwy bartneriaethau yn cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Compact.

Y tu allan i'r ddwy ardal, mae'n debyg y bu gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau lai o ymgyfraniad. Fel y nodwyd eisoes, mewn un ardal, defnyddiodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol swyddog Creu'r Cysylltiadau fel adnodd i ddynodi a sicrhau mewnbwn i drafodaethau ar faterion thematig allweddol (megis trais domestig) mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd, ac yn yr ardal hon bu gan swyddog Creu'r Cysylltiadau hefyd rôl bwysig wrth ddatblygu'r cais am brosiect llwyddiannus a ariannwyd gan y prosiect Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Cronfa Gymdeithasol Ewrop, sef cynyddu mewnbwn y trydydd sector i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd lleol.

Yn yr un modd, mewn ail ardal astudiaeth achos, trefnodd swyddog Creu'r Cysylltiadau gynhadledd i'r sector i drafod gwasanaethau lleol a bu ganddo'r hyn a ystyrid gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rôl bwysig wrth hwyluso mewnbwn cyrff trydydd sector i brosiect newydd (yn dal i fod ar gam cynnar) i drin marwoldeb cynamserol mewn un rhan o ardal yr awdurdod lleol: 'mae swyddog Creu'r Cysylltiadau yn dod â chyfoeth sy'n llunio syniadaeth'.

Yn yr ardal olaf, mae swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi gweithio gyda chymheiriaid yn yr un ardal i hwyluso mewnbwn y trydydd sector i gynllunio strategol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bu gan staff eraill Cyngorau Gwirfoddol Sirol a fu â chysylltiadau am fwy o amser yn aml rôl yr un mor bwysig neu bwysicach yn nhermau hwyluso'r mewnbwn yma: yn neilltuol mae gan gydlynwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (swyddi a ariannwyd am fwy na 10 mlynedd, i ddechrau gan Lywodraeth Cymru ac yn fwy diweddar gan Fyrddau Iechyd Lleol) rôl bwysig yn y cyswllt hwn ac yn gyffredinol roedd cyrff perthnasol yn y trydydd sector yn eu hadnabod yn llawer gwell, yn neilltuol mewn dwy o'r ardaloedd astudiaeth achos.

Yn nhermau hyfforddiant mwy ffurfiol i alluogi cyrff trydydd sector i gymryd rhan effeithlon mewn cynllunio gwasanaethau, bu hyn yn nodwedd yng ngwaith rhai swyddogion Creu'r Cysylltiadau, yn arbennig mewn dwy ardal ond yn llai amlwg mewn ardaloedd eraill. Mewn rhai ardaloedd, nid oherwydd



nad yw hyfforddiant o'r fath ar gael mae hyn ond yn hytrach oherwydd bod hyfforddiant yn yr ardaloedd hyn yn faes gweithgaredd ar wahân o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol ac ni fu'n ofynnol i swyddogion Creu'r Cysylltiadau gymryd rhan (ac weithiau cawsant eu hannog i beidio gwneud hynny).

### *3.3.2 Allbynnau*

*Mae trefniadau cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a secondiadau rhwng y ddau yn rhan o allbynnau targed a gytunwyd yn ffurfiol ar gyfer prosiect Creu'r Cysylltiadau. Mae data monitro yn cadarnhau mai ychydig o lwyddiant a gafodd hyn hyd yma: o fewn ein pum ardal astudiaeth achos, dim ond un trefniant cydweithio a dau secondiad a gofnodwyd (gyda saith wedi'u cofnodi ym mhob categori allbwn ar gyfer y prosiect cyfan).*

Yn unol â hyn, anaml y soniwyd am allbynnau o'r fath yn ystod ein gwaith maes fel llwyddiannau sylweddol, gyda sôn am ychydig enghreifftiau o gytundebau cydweithredu neu secondiadau gwirioneddol neu yn yr arfaeth. Bu un secondiad yn aflwyddiannus, gyda swyddog awdurdod lleol a secondiwyd i gorff trydydd sector yn gadael yn gynnar oherwydd y tybient fod y gweithgareddau yr oeddent yn ymwneud â nhw yn rhy weithredol a heb fod yn berthnasol i'w rôl. Yn wir, yn yr ardal yma, ystyriwyd secondiadau fel pethau 'blwch ticio' yr oedd yn rhaid eu gwneud oherwydd gofynion monitro. Mewn ardal arall, roedd trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt am gysgodi swydd posibl rhwng swyddogion awdurdod lleol a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ond nid oedd y rhain yn cael eu harwain gan swyddfa Creu'r Cysylltiadau ac nid oeddent eto wedi dod i ffrwyth.

Yn nhermau *sefydliadau a hyfforddwyd mewn cynllunio gwasanaeth*, fel y nodwyd eisoes, yn gyffredinol nid oedd swyddogion Creu'r Cysylltiadau yr astudiaethau achos wedi ymwneud yn ffurfiol â darparu na hwyluso hyfforddiant o'r fath.

### *3.3.3 Canlyniadau*

Mewn dwy ardal lle bu'r maes hwn yn ffocws sylweddol i weithgareddau swyddogion Creu'r Cysylltiadau, ymddengys yn debygol fod rôl Creu'r

Cysylltiadau wedi arwain neu yn arwain at gynnydd yng *ngallu'r sector i ddylanwadu ar benderfyniadau'n effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.*

Mewn un ardal, roedd partneriaid yn y sector cyhoeddus yn canmol rôl swyddog Creu'r Cysylltiadau a hefyd y cyrff trydydd sector yr oedd y swyddog yn eu defnyddio yn y prosiect yn canolbwyntio ar ymyriadau cynnar gyda phobl hŷn. Credid fod gan hyn y potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddarpariaeth cefnogaeth i bobl hŷn agored i niwed a gostwng y galw ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng-flaen - er y cyfaddefwyd ei bod yn dal i fod yn ddyddiau cynnar, gan mai dim ond ar fin mynd yn 'fyw' yr oedd y prosiect ac y byddai'n dibynnu ar y defnydd a wnâi meddygon teulu a swyddogion eraill y gwasanaeth iechyd ohono. Yn fwy cyffredinol, gwerthfawrogid mewnbwn y Cyngor Gwirfoddol Sirol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (er iddo gael ei wneud yn bennaf gan y Prif Swyddog) yn yr ardal hon , gyda phartneriaid yn y sector yn gyhoeddus yn ystyried y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn bartner llawn a dilys yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'i wahanol fforymau ar gyfer strategaeth, gweithrediadau a chraffu.

Yn y llall hefyd, canmolid system a roddwyd ar waith gan Creu'r Cysylltiadau i gydlynu mewnbwn y sector gan gyfweleion o'r trydydd sector a hefyd y sector statudol:

'... mae [yn gyffredinol] dueddiad ar i fyny drwyddi draw ar gyfer ymgyfraniad y trydydd sector mewn datblygu gwasanaethau lleol ac wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, er fy mod yn credu y bydd Creu'r Cysylltiadau yn helpu i gyflymu hyn' [cyfwelai o Gyngor Gwirfoddol Sirol].

Priodolid hyn yn rhannol i'r capasiti ychwanegol yr oedd Creu'r Cysylltiadau yn ei roi i ymgysylltu gyda chyrff sector cyhoeddus tu allan i gyfarfodydd partneriaeth ffurfiol, yn cynnwys rhyddhau amser staff eraill y Cyngor Gweithredu Sirol i wneud hynny:

'Yr hyn y gallasom ei wneud gyda Creu'r Cysylltiadau na allem ei wneud yn flaenorol yw gweithio ar ddatblygu'r berthynas un i un gyda chyrff sector cyhoeddus. Yn flaenorol roedd y cysylltiadau yn llawer mwy am fod yn

aelodau o'r un grwpiau partneriaeth. Gallwn fod yn fwy rhagweithiol nawr'.  
[Cyfwelai o Gyngor Gwirfoddol Sirol]

Enghraifft yma oedd bod swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi trefnu cyfarfod rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol ac undebau credyd lleol a arweiniodd at i'r Bwrdd Iechyd Lleol benodi swydd dros dro i gryfhau perthynas. Ystyrid hefyd y bu gan swyddog Creu'r Cysylltiadau rôl hollbwysig wrth sicrhau cynrychiolaeth llawer gwell i gyrff trydydd sector (yn cynnwys staff rheng flaen) ar amrywiaeth o gyrff yn gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys y Grŵp Comisiynu Strategaeth Clinigol hollbwysig a gynullwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Yn ei dro ystyrid fod hyn yn debygol o arwain at gryfhau ansawdd dyluniad gwasanaeth a hefyd gynyddu hyder gwneuthurwyr penderfyniadau yn y sector cyhoeddus a fyddai, gyda barn staff rheng-flaen ganddynt, yn fwy galluog i wneud penderfyniadau i wella ansawdd gwasanaethau.

Yn fwy cyffredinol, ystyriwyd bod yr adnodd ar-lein a roddwyd ar waith drwy'r swyddog Creu'r Cysylltiadau yn yr un ardal yn codi ymwybyddiaeth ymysg cyrff trydydd sector am gyfleoedd i gynrychioli eu sectorau ar bartneriaethau allweddol ac felly wella'r mewnbwn lleol i'r partneriaethau hyn.

Yn yr ardal yma, ystyrid yn gyffredinol fod partneriaid sector cyhoeddus yn croesawu mewnbwn y trydydd sector yn gynyddol, er y dadleuwyd fod ardaloedd yn dal i fod lle'r oedd yr ymgysylltu yn dal i fod yn docynistaidd. Dywedodd cyfwelai awdurdod lleol, lle bod hynny'n wir, ei fod oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r hyn oedd ei angen i ymgysylltu â'r sector wrth ddylunio gwasanaethau:

'Mae angen llawer mwy na dim ond rhoi cyfle i'r cyrff trydydd sector. Mae angen i chi'n wirioneddol weithio gyda nhw ac mae hynny'n golygu cynnig cefnogaeth os ydyn nhw angen hynny, ac mae llawer ohonyn nhw ei angen, yn arbennig ar y dechrau. Rwy'n meddwl fod hynny'n cael ei golli yn rhy aml'.

Mewn trydedd ardal astudiaeth achos, roedd cyfwelai Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gadarnhaol iawn am fewnbwn swyddog Creu'r Cysylltiadau wrth ddod ag ystod eang o gyrff trydydd sector at y bwrdd yng nghyd-destun y prosiect i

drin marwoldeb cynamserol, er i swyddog Creu'r Cysylltiadau ei hunan bwysleisio fod hyn ar gam cynnar iawn. Roedd y Bwrdd Iechyd Lleol yn glir na fyddai lefel bresennol y dialog wedi digwydd i'r un graddau heb fewnbwn swyddog Creu'r Cysylltiadau. Yn ddiddorol, dywedwyd fod mewnbwn y trydydd sector wedi arafu cynnydd, oherwydd iddo fod yn heriol a gwneud i'r cyrff statudol feddwl, ond teimlai'r cyfwelai yma y byddai'r canlyniadau yn llawer gwell yn y tymor hwy.

Yn wahanol, mewn ardal arall, ymddangosai er gwaethaf ymdrechion caled swyddog Creu'r Cysylltiadau yn nhermau strategaeth ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, bod y canlyniadau yn nhermau mewnbwn gwirioneddol gan y sector yn eithaf cyfyngedig: roedd swyddog Creu'r Cysylltiadau a'r cyfweleion o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn siomedig na fu'r sector yn ymwneud â diweddarau'r Cynllun Integredig Sengl, er y credid fod hyn unwaith eto yn dangos y canfyddiad mai ychydig o gysylltiad oedd rhwng y Cynllun Integredig Sengl â'r gwaith go iawn o ddylunio a chomisiynu gwasanaethau.

Er, yn nhermau mewnbwn y trydydd sector i ddylunio gwasanaethau, bod y model rhesymeg yn canolbwyntio yma ar gapasiti, mae'n bwysig tanlinellu bod materion gwirioneddol ar yr ochr *a/w* yng nghyswllt dylanwad y sector ar gomisiynu penderfyniadau yn neges glir o'r gwaith maes yn yr ardaloedd astudiaeth achos. Mae'n amlwg bod angen rhoi unrhyw ystyriaeth o lwyddiant neu fel arall swyddogion Creu'r Cysylltiadau a Chynghorau Gwirfoddol Sirol yn fwy cyffredinol wrth ddylanwadu ar faterion o'r fath yng nghyd-destun i ba raddau y mae partneriaid sector cyhoeddus yn (neu'n ymddangos i fod) yn barod i wrando a rhoi ystyriaeth i farn y trydydd sector.

Yn o leiaf dair o'r ardaloedd astudiaeth achos, roedd cyfweleion o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r trydydd sector yn fwy cyffredinol yn amheus iawn o ddiddordeb partneriaid sector cyhoeddus (yn arbennig awdurdodau lleol) mewn gwrandio ar farn y sector. Fel canlyniad, mae'n amlwg y teimlai'r cyfweleion hyn mai gwerth cyfyngedig oedd mewn meithrin gallu'r sector i roi mewnbwn i gynllunio gwasanaethau, a bod hynny'n wastraff amser mewn rhai achosion.

Felly yn un o'r tri ardal yma, lle bu'r berthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn hanesyddol yn gymharol dda, a lle'r oedd un neu ddau achos o berthynas waith agos iawn rhwng cyrff trydydd sector a'r Cyngor, ni chredai cyfweleion o gyrff trydydd sector fod yr awdurdod lleol (neu o leiaf rannau allweddol ohono) o ddifrif am ymgysylltu. Felly roedd cyfweleion mewn un corff o faint canolig, gyda ffocws ar gymuned benodol, yn dadlau na allai'r Cyngor gydlyn rhwng ei wasanaethau ei hun yn yr ardal, ac er ymrwymiad proffil uchel i ddod â darparwyr gwasanaeth perthnasol (statudol a gwirfoddol) ynghyd yn yr ardal dros nifer o flynyddoedd, ni fu unrhyw gynnydd ar hyn. Ym marn y cyfweleion hyn, roedd yr ymgynghori gan yr awdurdod lleol fel arfer yn docynistaidd iawn ac roedd y berthynas gyda gwahanol rannau o'r awdurdod yn ddibynnol iawn ar safbwynt swyddogion unigol canol gradd.

Yn yr ardal astudiaeth achos yma, fodd bynnag, gwelai rhai cyfweleion dueddiad cynyddol gan yr awdurdod lleol i osgoi'r Cyngor Gwirfoddol Sirol a gweithio'n uniongyrchol gyda chyrff y tybient eu bod yn berthnasol (yn aml gyrff mwy):

'Os ydyn nhw'n siarad am waith gwrthloddi maen nhw'n mynd yn syth at yr undeb credyd. Os ydyn nhw'n siarad am agenda trechu tlodi, maen nhw'n mynd yn syth at Barnado's' [cyfwelai Cyngor Gwirfoddol Sirol].

Bu tueddiad tebyg yn amlwg am gyfnod hir mewn ail ardal. Yma disgrifiwyd y berthynas rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol fel 'anodd', gyda chyfweleion o'r sector statudol yn mynegi rhwystredigaeth ar yr hyn a welent fel ymgais y Cyngor Gwirfoddol Sirol i 'osgoi' y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a chyfweleion y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gyffredinol yn dadlau nad oedd gan yr awdurdod lleol ddiddordeb ym marn y sector er eu bod yn ymddangos i 'ganmol' pwysigrwydd y sector. Dywedodd cyfweleion eraill o'r trydydd sector nad oeddent wedi arfer edrych ar y Cyngor Gwirfoddol Sirol i ddylanwadu ar gynllunio gwasanaethau ond eu bod wedi arfer 'gwneud eu peth eu hunain'.

Yn yr ardal yma, credai'r Cyngor Gwirfoddol Sirol a phob corff unigol o'r trydydd sector a gyfwelwyd nad oedd yr awdurdod lleol yn eu gwerthfawrogi na'u deall. Ymhellach, teimlid fod gallu'r sector i ddylanwadu ar gynllunio

gwasanaethau wedi gostwng mewn blynyddoedd diweddar, oherwydd ffocws cliriach gan yr awdurdod lleol ar gaffaeliad a bod swyddogion caffael yn mynnu fod statws cyrff trydydd sector fel cynigwyr posibl yn gwahardd unrhyw ymgynghori blaenorol rhyngddynt a'r comisiynwyr (gan adlewyrchu pryder a nodwyd hefyd gan randdeiliaid cenedlaethol yn y gwerthusiad ehangach o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Cronfa Gymdeithasol Ewrop<sup>54</sup>): yn wir, mewn un achos roedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol ei hunan wedi ei eithrio o drafodaethau am ddylunio gwasanaethau oherwydd yr hyn a ystyrid yn wrthdaro posibl pe byddai un o'i aelodau'n gwneud cynnig.

Gallodd pob un o'r tri chorf sector cyhoeddus a gyfwelwyd yn yr ardal yma sôn am enghreifftiau lle dywedwyd fod gwasanaethau a gomisiynwyd wedi bod yn llai addas nag y gallent fod wedi bod oherwydd diffyg mewnbwn ganddynt ar y cam dylunio (er enghraifft, rannu tendr ar gyfer Cefnogi Pobl yn dair ardal ddaearyddol wahanol; canolbwyntio gwasanaethau iechyd meddwl ar ganolfannau dydd yn hytrach na rhoi hyblygrwydd ar gyfer darpariaeth yn y cartref). Dywedodd pob un o'r tri hefyd nad oeddent wedi cael fawr neu ddim mewnbwn i'r Cynllun Integredig Sengl, gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn yr ardal yma hefyd yn teimlo'n fwy cyffredinol mai ychydig o gyfle a gafodd i ddylanwadu ar y broses.

Yn yr un modd (ac fel y nodwyd yn yr adroddiad llinell sylfaen), mewn ardal arall roedd y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (a, gellid dadlau, y sector yn ehangach) wedi ei suro gan benderfyniad yr awdurdod lleol, heb ymgynghori ymlaen llaw, i derfynu ystod o gytundebau lefel gwasanaeth hirsefydlog a'u disodli gyda chontractau a gaffaelwyd drwy Gwerthwchi Gymru. Eto, yn yr ardal yma, dywedodd un cyflogai awdurdod lleol fod defnyddio caffaeliad yn ei gwneud yn anos cysylltu gyda chyrff trydydd sector am ddyluniad gwasanaethau, oherwydd bod rheolau caffaeliad yn golygu bod darparwyr gwasanaeth trydydd sector oedd yn buddsoddi amser

---

<sup>54</sup> Dywedodd hyn bod rhai rhanddeiliaid cenedlaethol yn bryderus am 'ddiffyg eglurdeb am rolau lluosog y trydydd sector a nododd y gall y trydydd sector fod yn ymwneud ag eiriolaeth a lobio yn ogystal â darparu gwasanaethau. Gall hyn achosi gwrthdaro diddordeb, yn neilltuol pan mai prif ffocws corff yw sicrhau cyllid grant ar gyfer darparu ei wasanaethau ei hun, a all ei gwneud yn anos i fod â rôl fwy strategol yn, er enghraifft, ddylunio a chomisiynu gwasanaeth'.

yn llunio gwasanaethau cyhoeddus mewn risg o beidio cael contract i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Dadleuodd cyfweleion yn ardal yr astudiaeth achos yma mai gallu cyfyngedig iawn oedd i ddylanwadu ar benderfyniadau'r awdurdod lleol ar ddyluniad gwasanaethau lleol, nid yn lleiaf oherwydd nad oedd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gweithio'n iawn. Felly, dywedodd un cyfwelai o'r sector cyhoeddus, gyda phopeth yn y pair yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y byddai'n anodd i'r trydydd sector, yn cynnwys y Cyngor Gwirfoddol Sirol, i gymryd rhan weithgar wrth lunio gwasanaethau cyhoeddus nes bod y sector cyhoeddus 'yn cael ei dŷ ei hunan mewn trefn'.

Ym mhob un o'r ardaloedd astudiaeth achos hyn (a hefyd mewn pedwaredd), yn cynnwys tri gwahanol Fwrdd Iechyd Lleol, ystyriwyd bod y berthynas gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn gyffredinol rywfaint yn well. Yn y bedwaredd ardal, ystyrid bod gan y Bwrdd Iechyd Lleol 'agwedd gadarnhaol iawn' at fewnbwn y sector wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, gan gydymffurfio â Chod Ymarfer Comisiynu a ystyrid yn arfer gorau ac mewn ardal arall, credid fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn llawer mwy agored i annog mewnbwn gan y trydydd sector i gynllunio gwasanaethau.

Ar ôl dweud hyn, dadleuodd rhai cyfweleion o'r trydydd sector, ac - yn o leiaf ddwy ardal astudiaeth achos, rai o'r cyfweleion o'r sector statudol hefyd - fod darpariaeth trydydd sector yn parhau'n gymharol ymylol yn nhermau blaenoriaethau ac yn sicr gyllidebau'r Byrddau Iechyd Lleol, gyda swyddog awdurdod lleol yn dweud:

'dydyn nhw ddim yn gwerthfawrogi beth sydd gan y trydydd sector i'w gynnig tu hwnt i wneud te yng nghaffe'r ysbyty ... dydyn nhw ddim yn cael eu cymryd o ddifrif' [cyfwelai Awdurdod Lleol]

Roedd un corff trydydd sector, mewn ardal astudiaeth achos wahanol, er enghraifft, wedi darparu hyfforddiant i ymarferwyr iechyd rheng-flaen ar drais domestig a welid fel ffordd werthfawr o ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth, ond darparwyd yr hyfforddiant yma heb unrhyw dâl gan y Bwrdd

lechyd Lleol. Dywedodd corff arall mawr o'r trydydd sector gyda chytundeb lefel gwasanaeth sylweddol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, mai ychydig o ddialog a fu rhyngddo â'r Bwrdd Iechyd Lleol am siâp y gwasanaeth yr oedd yn ei ddarparu, er ei bod yn ddiddorol i'r cyfwelai o'r Bwrdd Iechyd Lleol nodi fod y ffaith fod staff y sefydliad wedi symud yn ddiweddar i'r un lleoliad o fewn ysbyty wedi gwella'r gwasanaeth i gleifion a gostwng y baich ar wasanaethau statudol.

Yn ddiddorol, ystyriwyd bod rôl Cydlynwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (y mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn eu hariannu ond a gyflogir gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol) yn allweddol bwysig yma wrth sicrhau mewnbwn y sector wrth ddylunio gwasanaethau'r Byrddau Iechyd Lleol. Mewn un ardal astudiaeth achos, er y bu swyddog Creu'r Cysylltiadau yn ganolog wrth roi blociau adeiladu yn eu lle ar gyfer y prosiect pobl hŷn, caiff y prosiect ei hunan ei reoli gan y Cydlynwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant; ac mewn ardal arall, cafodd prosiect yn gysylltiedig ag iechyd yr helpodd swyddog Creu'r Cysylltiadau i'w sefydlu hefyd ei ddatblygu gyda'r Cydlynwyr yn rheoli. Yn y ddau achos, ymddengys fod y ffaith y caiff swydd y Cydlynwyr ei thalu'n rheolaidd, yn hytrach nag fel penodiad am dymor byr sefydlog, yn arwyddocaol.

Ni chaniataodd ein casglu tystiolaeth i ni mewn gwirionedd i gael unrhyw farn glir am wahanol ganfyddiadau'r Gwasanaethau Tân ac Achub a Gwasanaeth yr Heddlu. Mewn un ardal, ystyrid bod diogelwch y gymuned yn faes a fu'n llai agored i fewnbwn gan y trydydd sector, er yr ymddangosai fod ethol Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn gwneud gwahaniaeth, ac mewn dwy ardal arall, ystyrid bod yr heddlu yn barod i weithio'n agos gyda'r sector er 'dydyn nhw ddim yn naturiol yn canfod fod gwaith partneriaeth mor rhwydd â hynny' [corff trydydd sector).



### 3.4 Mewnbyn i Ddarpariaeth Gwasanaethau

#### **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL**

Bu cryn amrywiaeth yn y graddau y bu swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn ymwneud â darparu hyfforddiant a chynghor i gyrff trydydd sector i gynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn dibynnu ar y blaenoriaethau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Gyngorau Gwirfoddol Sirol. Mewn dwy ardal astudiaeth achos, bu hwn yn faes o weithgaredd sylweddol, ond mae'n llai gwir mewn ardaloedd eraill.

Er y bu Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn gyffredinol yn weithgar wrth ysgogi mwy o gydweithio rhwng gyrff trydydd sector, y tu allan i un ardal astudiaeth achos, mae'n ymddangos mai prin y priodolir hynny'n uniongyrchol i Creu'r Cysylltiadau ac ymddengys fod canlyniadau'n gyffredinol yn weddol gyfyngedig.

Mae adborth o ardaloedd astudiaethau achos yn fwy cyffredinol eto'n awgrymu y bu'r cyd-destun yn anffafriol i'r agwedd yma o Creu'r Cysylltiadau.

Yn ymarferol, mae'r sector yn tybio mai cymharol ychydig sydd o ran arfer caffaeliad tryloyw, ac ymddengys fod darpariaeth gwasanaethau gan y trydydd sector yn gostwng fel canlyniad i doriadau mewn cyllidebau a thueddiad rhai awdurdodau lleol i wneud gwasanaethau'n fewnol er mwyn cadw swyddi sector cyhoeddus. Lle ystyrir fod y trydydd sector yn cynnig manteision yn nhermau darparu gwasanaethau cyhoeddus, ymddengys fod hyn i raddau helaeth oherwydd y canfyddiad ei fod yn ddewis rhatach na darpariaeth sector cyhoeddus, canfyddiad y mae'r sector ei hun yn anghytuno ag ef.

Fel gyda chynllunio gwasanaethau, ymddengys fod llwyddiant Creu'r Cysylltiadau (ac yn wir y Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn fwy cyffredinol) yn nhermau cynyddu rôl y sector wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu'n helaeth ar y cyd-destun ehangach, yn neilltuoel yr 'ochr alw', h.y.

barn cyrff statudol eu hunain am ba mor briodol a dymunol yw hi i'r trydydd sector gymryd rôl o'r fath.

#### 3.4.1 Gweithgareddau

Yn nhermau *darparu cyngor a help i ddarparwyr posibl o'r trydydd sector*, fel y nodwyd eisoes yn Adran 3.2, bu cyfarfodydd un-i-un rhwng swyddog Creu'r Cysylltiadau a chyrrff unigol o'r trydydd sector yn nodwedd o waith nifer o swyddogion Creu'r Cysylltiadau ac mae hyn mewn rhai achosion wedi cynnwys darparu cyngor a chymorth uniongyrchol ar faterion yn ymwneud â chaffaeliad neu faterion ehangach darparu gwasanaethau sector cyhoeddus.

Yn neilltuol, mewn un ardal astudiaeth achos, mae swyddog Creu Cysylltiadau wedi rhoi cyngor ac arweiniad i tua 20 o gyrff unigol yn cynnwys ar faterion 'traddodiadol' Cynghorau Gwirfoddol Sirol megis llywodraethiant a strwythur (ac felly, gellid dadlau, gyda dim ond cysylltiadau cyfyngedig gydag agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus):

'buom yn defnyddio'r adnodd i wneud ein gwaith ein hunain ... mynd o amgylch sefydliadau yn cynnal y gwiriadau iechyd llywodraethiant, gwneud gwaith datblygu ... o leiaf ar ddiwedd y cyfnod bydd y sector wedi cael rhywbeth defnyddiol allan ohono' [cyfwelai Cyngor Gwirfoddol Sirol].

Yn yr ardal astudiaeth achos yma, ystyrir bod swyddog Creu'r Cysylltiadau hefyd wedi perfformio rôl ategol i'r Cydlynnydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn nhermau gweithio'n unigol a thrwy rwydweithiau a fodolai eisoes gyda chyrrff trydydd sector i gynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn yr ardal yma, nododd y Cydlynnydd fod swyddog 'Creu'r Cysylltiadau' yn 'adnodd ychwanegol' a:

'Fyddwn i ddim wedi gallu gwneud y math yna o waith ... mae fy nghylch gorchwyl yn eang iawn a fyddwn i ddim wedi cael amser i'w gweld i gyd yn unig'.

Efallai'n fwy arwyddocaol, mae rôl swyddog Creu'r Cysylltiadau mewn ardal arall, yn gweithio ar brosiectau penodol yn gysylltiedig â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl, yn anochel wedi cynnwys

rhoi cymorth i gyrrff unigol o'r trydydd sector wrth ddiffinio a theilwra eu rôl wrth ddarparu gwasanaethau sector cyhoeddus. Yn yr achos yma hefyd, mae'n amlwg y bu gan Creu'r Cysylltiadau rôl wrth *drefnu cynlluniau cydweithio rhwng cyrrff trydydd sector.*

Mewn trydedd ardal, mae swyddog Creu'r Cysylltiadau hefyd wedi bod wrthi'n codi ymwybyddiaeth ac ysgogi cydweithredu rhwng cyrrff trydydd sector, yn fwyaf arbennig drwy drefnu digwyddiad ar 'Cydweithio i Ddarparu Gwasanaeth' a fynychwyd gan bron gant o gyrrff yn ogystal â gweithio gyda Chyngor Gwirfoddol Sirol cyfagos i gyflwyno hyfforddiant ar 'Cyflwyniad i Gydweithredu'.

Yn fwy cyffredinol, yn nhermau *hyfforddiant/cefnogaeth i sicrhau y gall cyrrff trydydd sector dendro*, bu swyddog Creu'r Cysylltiadau yn yr un ardal yn weithgar mewn darparu hyfforddiant, gan weithio gyda Busnes Cymru i gyflwyno cyrsiau ar 'Cyflwyniad i Dendro' ac ar ddefnyddio Gwerthwchi Gymru, hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a sesiwn hyfforddiant i hyfforddwyr ar 'Egluro Comisiynu'.

Yn yr un modd, mewn ardal arall, bu swyddog Creu'r Cysylltiadau yn weithgar wrth drefnu amrywiaeth o sesiynau hyfforddiant, yn cynnwys gweithdy 'Cael eich Tŷ mewn Trefn'; gweithdy ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, gweithdy rheolaeth amgylcheddol 'Draig Werdd', digwyddiad cydgynhyrchu oedd hefyd yn cynnwys gweithdy 'Sut i Dendro'; gweithdy ar systemau sicrwydd ansawdd a digwyddiad ar ddarparu gwasanaethau wedi'u caffael yn ymwneud ag iechyd a lles cymdeithasol. Ymhellach, mae cynnyrch hyfforddiant mwy 'arloesol' yn cael eu datblygu (yn cynnwys ar farchnata, arddangos gwerth cymdeithasol ac ymgysylltu â'r cyhoedd). Fodd bynnag, fel arfer trefnir y gweithgareddau hyfforddiant hyn ar y cyd gyda staff eraill y Cyngor Gwirfoddol Sirol neu gyda Chyngorau Gwirfoddol Sirol eraill yn y rhanbarth.

Y tu allan i'r ddwy ardal yma, mae llai o dystiolaeth y bu gan Creu'r Cysylltiadau rôl sylweddol wrth ddarparu hyfforddiant. Nid yw hyn oherwydd nad oes cyngor, hyfforddiant a threfnu o'r fath ar gael mae hyn ond yn hytrach

oherwydd y caiff ei ddarparu mewn man arall o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol. Fel y nodwyd yn yr adroddiad llinell sylfaen, cafodd nifer o brosiectau eraill megis Cymunedau Mentrus adnoddau ar wahân i ddarparu hyfforddiant meithrin gallu i gyrff trydydd sector gynyddu eu gweithgaredd masnachu yn fwy cyffredinol a'u gallu i gydymffurfio gyda gweithdrefnau a phrosesau caffaeliad. Mewn nifer o ardaloedd astudiaeth achos, bu hyfforddiant ar gaffaeliad yn 'gynnig' sefydlog ers cryn nifer o flynyddoedd; dywedodd un cyfwelai o'r trydydd sector iddo'n gyntaf gael hyfforddiant o'r fath tua deng mlynedd yn ôl.

Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'n gwaith maes fod gwahaniaeth barn am hyn (ac mewn nifer o ffyrdd eraill) rhwng cyrff llai a mwy o'r trydydd sector. Roedd nifer o'r cyrff mwy y gwnaethom siarad â nhw yn amheus o hyfforddiant a chyngor ar gaffaeliad gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol gan ddweud ei fod yn rhy sylfaenol ac na fyddai mewn gwirionedd yn galluogi sefydliadau i gystadlu'n effeithlon mewn sefyllfaoedd o gaffaeliad hollol agored.

Mewn nifer o ardaloedd astudiaeth achos, dwy yn neilltuol, mae'n amlwg y bu Gyngorau Gwirfoddol Sirol yn weithgar wrth lunio consortia i gynnig am ddarnau penodol o waith er enghraifft, mewn un, consortiwm i ddarparu gwasanaethau plant ac yn yr ail, gonsortiwm llwyddiannus iawn oedd yn darparu gwasanaethau cwricwlwm amgen i'r awdurdod lleol) ond gwnaed y gwaith hwn yn annibynnol o Creu'r Cysylltiadau.

### *3.4.2 Allbynnau*

Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, byddai'n ymddangos mai cymharol ychydig o allbynnau sydd hyd yma o leiaf yn nhermau *sefydliadau a hyfforddwyd/gefnogwyd i gyrraedd safonau cyrhaeddiad a chytundebau cydweithredu o fewn y trydydd sector* y meddir eu priodoli'n uniongyrchol i'r prosiect. Dim ond dwy enghraifft gymwys o drefniadau cydweithredu o'r fath sydd ar y system fonitro ar hyn o bryd, y ddwy o un ardal astudiaeth achos, er y credir fod pedair arall o ail ardal astudiaeth achos 'yn yr arfaeth'. Cofnodwyd cyfanswm o 19 cytundeb cydweithredu o'r fath ar draws yr holl brosiect, o gymharu â tharged o 30.

Yn wir, mewn un ardal, dywedodd cyfweleion y Cyngor Gwirfoddol Sirol fod y targed o gynhyrchu o leiaf un cytundeb cydweithredu rhwng cyrff trydydd sector yn ddiangen, efallai yn wrthgynhyrchiol i berthynas dda ac nad oedd yn rhoi ystyriaeth i berthnasoedd anodd yn lleol.

### 3.4.3 Canlyniadau

Yn nhermau canlyniadau, eto, byddai'n ymddangos er bod Creu'r Cysylltiadau wedi cyfrannu at waith Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn fwy cyffredinol yn nhermau annog *cyrff trydydd sector sy'n fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd a chynnydd yn nifer y cyrff trydydd sector sy'n fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithredu*, mae'r canlyniadau cyffredinol y medrir eu priodoli'n uniongyrchol i Creu'r Cysylltiadau yn debyg o fod yn gymharol brin.

Fodd bynnag, mae rhai eithriadau.

Mewn un ardal, cafodd y dull a yrrwyd gan bartneriaeth yn dod â chyrff trydydd sector a'r sector statudol ynghyd i ddynodi dulliau cydweithredol o gefnogi pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol ei hwyluso i raddau helaeth gan swyddog Creu'r Cysylltiadau a gellir disgwyl iddo gynhyrchu mwy o ymgyfraniad o'r trydydd sector wrth ddarparu ymyriadau ataliol.

Yn yr un modd, mewn ail ardal, bu swyddog Creu'r Cysylltiadau yn ganolog (er yn gweithio gydag aelodau eraill o staff y Cyngor Gwirfoddol Sirol) i greu rhwydwaith o wyth neu naw o gyrff trydydd sector yn darparu gwasanaeth cyfeillio newydd ar gyfer pobl hŷn ac agored i niwed, a ddynodwyd fel bwllch yn y gefnogaeth sydd ar gael yn lleol (yn arbennig yng ngoleuni cau cyfleusterau megis canolfannau dydd). Ystyrir bod hyn nid yn unig wedi sicrhau buddion yn nhermau sicrhau newid diwylliannol real o fewn cyrff trydydd sector e.e. o amgylch cynyddu cwmpas y gwasanaeth a ddarparwyd, defnyddio dull gweithredu mwy hyblyg a ffordd o feddwl sy'n gweld cyrff trydydd sector arall yn llai fel cystadleuwyr ac yn fwy fel partneriaid, ond hefyd

yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddull mwy ataliol y rhagwelir fydd yn arwain at lai o salwch (o bob math) ac oddi yno fod yn gysylltiedig gyda chostau is ar gyfer triniaeth gofal iechyd (h.y. arbedion cost gwirioneddol i'r trethdalwr yn yr hirdymor).

Yn fwy cyffredinol, yn ardal yr astudiaeth achos yma, dadleuwyd y byddai digwyddiadau hyfforddiant a hwylusid gan swyddog Creu'r Cysylltiadau hefyd wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i'r cyrff trydydd sector a fynychodd oherwydd y cafodd y digwyddiadau/hyfforddiant adborth cadarnhaol iawn yn nhermau perthnasedd ac ansawdd ac oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar weithredu e.e. yn annog cyrff i gytuno ar egwyddorion penodol megis cydraddoldeb neu ddatblygu cynlluniau gweithredu penodol e.e. cydweithredu.

Mewn trydedd ardal, cafodd y cynnig hyfforddiant a hwyluswyd gan swyddog Creu'r Cysylltiadau groeso da yn gyffredinol, gyda bodolaeth swyddog Creu'r Cysylltiadau hefyd yn amlwg wedi cynyddu gallu'r Cyngor Gwirfoddol Sirol i gynnig cefnogaeth unigol i nifer gyfyngedig o gyrff, er mwyn eu 'paratoi ar gyfer tendro', er i'r cyfwelai o'r sector cyhoeddus yma ddadlau fod y math o gefnogaeth a gynigid yn rhy arwynebol i wneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol. Yn yr un ardal, dadleuodd cyfwelai Cyngor Gwirfoddol Sirol fod llawer o gyrff trydydd sector yn awr yn dechrau deall 'bod yn rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd a hyd yn oed greu cyrff newydd' er mwyn bod â rhan wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, tra'n ychwanegu 'nad ydyn nhw'n gwybod yn iawn sut i fynd o'i chwmpas hi oherwydd nad yw blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn glir eto'.

Yn fwy cyffredinol, mae'r astudiaethau achos yn awgrymu i ryw raddau barodrwydd cynyddol ar ran cyrff trydydd sector i ymrwymo i gytundebau cydweithredu a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon a mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd symud ymaith o ddibyniaeth ar grantiau i fwy o ddull darparu gwasanaeth.

Fodd bynnag, yn o leiaf ddwy o'r ardaloedd, caiff hyn ei yrru i raddau helaeth gan bwysau ariannol ar lywodraeth leol yn arwain at benderfyniadau gweddol unochrog gan awdurdodau lleol i ddirwyn i ben berthynas grant hirsefydlog neu gytundeb lefel gwasanaeth gyda chyrrff sector cyhoeddus a symud ar hyd llwybr caffaeliad. Ym marn cyfweleion o'r trydydd sector yn yr ardaloedd hyn, roedd hyn yn gyffredinol yn arwain at wanhau'r sector yn lleol a gostwng ymgyfraniad y sector wrth ddarparu gwasanaethau.

Mewn un o'r ddwy ardal yma, rhoddwyd enghreifftiau o gyrff a fu am flynyddoedd lawer yn cyflwyno darpariaeth dan Teuluoedd yn Gyntaf (a'i ragflaenydd) a fu ar eu colled fel canlyniad i ymarferiad caffaeliad y credid iddo gael ei gynnal gyda chymharol ychydig o rybudd ac o fewn amserlen fer. Honnwyd bod dulliau caffaeliad o'r fath yn gyffredinol yn ffafrio cynigion mewdol gan staff y Cyngor (er y gofyniad am 'furiau Tsieineaidd'), gyda maint gofynnol 'lot' yn fater neilltuol (yn achos Teuluoedd yn Gyntaf dywedwyd fod y maint gofynnol yn werth £300,000).

Yn ddiddorol, fodd bynnag, soniodd cyfweleion awdurdodau lleol yn yr un ardal am y ffaith fod cyrrff trydydd sector wedi ennill nifer o gontractau mawr fel canlyniad i'r cynlluniau caffaeliad diweddar hyn. Byddai'n ymddangos y caiff o leiaf ran o'r conwrdwrwm ei esbonio gan dueddiad cyrrff mwy, yn aml yn rhai sy'n gweithredu yn y trydydd sector ar draws Cymru neu'r Deyrnas Unedig gyfan ac a all gystadlu'n effeithlon am gontractau o'r fath, i 'wasgu allan' gyrff mwy lleol sy'n debycach o fod yn aelodau o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol. Nododd un cyfwelai o ardal astudiaeth achos arall oedd yn gyfarwydd gyda datblygiadau yn ei sector yn yr un ardal fod corff lleol yn yr ardal wedi colli allan i gystadleuwr rywfaint yn fwy o ran maint a hefyd fwy gwancus o'r tu allan. Credai'r cyfwelai yma fod caffaeliad yn fygythiad mawr i elusennau fel ei helusen hi oedd ag agenda cyfangwbl leol ac nad oedd yn dymuno ehangu.

Yn y tair ardal astudiaeth achos, ystyriwyd y tanseilid perthnasedd ceisiadau'r Cyngor Gwirfoddol Sirol i feithrin gallu i dendro am wasanaethau gan y ffaith nad oedd asiantaethau statudol mewn gwirionedd wedi ymrwymo i ddilyn dull

caffaeliad (er nad oedd llawer o'r rhai a nododd hyn yn dymuno gweld hynny'n digwydd).

Yn un ohonynt, nododd cyfweleion o bob sector mewn gwirionedd fod yr awdurdod lleol wedi bod yn amharod iawn i ddilyn dull caffaeliad, gyda chytundebau lefel gwasanaeth (oedd mewn llawer achos yn ymarferol yn grantiau wedi cysylltu rywfaint yn llac gyda gweithgareddau a chanlyniadau) yn cael eu hymestyn flwyddyn ar ôl blwyddyn, er gyda thoriadau'n cael eu gosod yn awr. Dywedodd un cyfwelai fod yr awdurdod lleol wedi dweud wrthynt am flynyddoedd lawer mai honno fyddai'r flwyddyn ddiwethaf y byddai cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei ymestyn ac y byddai'r gwasanaeth (a ariannwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf) yn cael ei gaffael, ond ni ddigwyddodd hynny hyd yma. Dywedodd un arall mai'r system bresennol oedd y gwaethaf o bob byd: roedd eu cytundeb lefel gwasanaeth yn eu hymrwymo i sicrhau canlyniadau neilltuol, ond os cyflawnid hynny, roedd yr awdurdod lleol yn dal i fod eisiau archwilio eu gwariant ac adennill unrhyw beth na ystyrient ei fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwasanaeth.

Yn yr un ardal, dywedwyd y bu adolygiad mawr o gomisiynu trydydd sector yn ddiweddar yn y Bwrdd Iechyd Lleol oedd wedi arwain at ddull llawer mwy cyson yn nhermau prosesau ar draws ardal y Bwrdd, ond nad oedd hynny wedi arwain at unrhyw newid sylweddol yn nhermau cysylltiadau hirsefydlog a dim ond un enghraifft o gaffaeliad lle gwelid bod gorgyffwrdd sylweddol mewn darpariaeth rhwng dau gorff trydydd sector a ariannwyd gan y Bwrdd.

Hyd yn oed yn ardal yr astudiaeth achos lle'r oedd ymgais yr awdurdod lleol i gyflwyno caffaeliad yn lle cytundebau lefel gwasanaeth hirsefydlog wedi achosi llawer o ddrwgdeimlad, awgrymodd cyfweleion fod yn dal i fod llawer mwy o sôn am gaffaeliad na chyfleoedd gwirioneddol i gyrff trydydd sector dendro, nid yn lleiaf oherwydd diffyg cynnydd wrth hyrwyddo'r Cynllun Integredig Sengl.

Mewn ardal astudiaeth achos arall, fodd bynnag, er y credid y byddai caffaeliad agored yn gynyddol yn dod yn ddull naturiol yr awdurdod lleol yn y



dyfodol, bod pryderon eang nad oedd eglurdeb am gynlluniau comisiynu'r dyfodol:

'Mae cynllunio ar gyfer y dyfodol ar yr hyn a gomisiynir yn rhywbeth nad ydym yn edrych arno'n agos. Yr hyn sy'n anodd serch hynny yw nad yw cyfleoedd newydd yn cael eu hysbysebu oherwydd y bu gan yr un sefydliadau gontractau am flynyddoedd lawer. Ar ôl dweud hynny, dywedwyd wrthym y caiff llawer o'r contractau hynny eu hadnewyddu yn y dyfodol agos felly rydym eisiau bod mewn sefyllfa lle gallwn hysbysu'r trydydd sector am y cyfleoedd hynny' [swyddog Creu'r Cysylltiadau].

Yn yr un modd, roedd cyfwelai o gorff mawr yn gweithio mewn nifer o ardaloedd awdurdod lleol yn synnu na ymddangosai fod gan unrhyw un o'r awdurdodau lleol neu'r Byrddau Iechyd Lleol y gweithiai gyda nhw strategaethau comisiynu neu gynlluniau gweithredu caffaeliad clir, a fyddai'n nodi'n amlwg beth oedd ar y gweill.

Er mewn egwyddor y credai rhai cyfweleion y dylai'r pwysau ar gyllidebau sector cyhoeddus fod yn gyrru dulliau gweithredu mwy arloesol o ddarparu gwasanaethau, yn cynnwys mwy o gydgyngyrchu, roedd cryn amheuaeth os oedd hyn yn digwydd. Yn wir, mewn nifer o achosion, credai cyfweleion fod awdurdodau lleol yn neilltuol yn ceisio arbed swyddi ac osgoi colli swyddi drwy wneud gwasanaethau yn fewnol.

Mewn un ardal astudiaeth achos, fel y nodwyd uchod, tybiai rhai bod caffaeliad yn ffordd i gynyddu darpariaeth fewnol o wasanaethau allweddol, ac mewn ardal arall soniwyd am nifer o achosion o wasanaethau yr arferid eu darparu gan y trydydd sector ond a wneid bellach yn fewnol. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaeth eiriolaeth, lle'r oedd yr awdurdod lleol wedi hysbysu ei fod yn dileu cyllid o ddau gorff trydydd sector ac yn darparu'r gwasanaeth yn fewnol (er bod y swyddi wedi eu graddio ar gyflog sylweddol uwch na'r cyflogau presennol) a gwasanaeth cynghori a chymorth statudol lle cafodd cydlynedd gwirfoddoli a arferai weithio o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol ei ddisodli gan aelod o staff awdurdod lleol, gan gollu arbedion maint sylweddol a

gafwyd yn flaenorol oherwydd bod y swydd yn yr un lleoliad â'r Swyddfa Gwirfoddoli.

Mewn man arall, mewn trydedd ardal astudiaeth achos, roedd ychydig yn fwy o optimistiaeth y gallai cwtdogi fod yn hybu mwy o barodrwydd i ddefnyddio sgiliau'r trydydd sector yn fwy helaeth, er i ryw raddau y teimlid fod pobl yn dal heb fod yn gwybod yr ateb i hyn.

Ymhellach, yn yr ardal yma, teimlai o leiaf un corff trydydd sector fod nerfusrwydd am ddarpariaeth sector cyhoeddus a sector preifat, yn neilltuol mewn gofal cymdeithasol, yn hybu cyfleoedd ar gyfer y trydydd sector. Fodd bynnag, teimlai cyfweleion eraill o fewn y sector, er bod gan rai adrannau agwedd iach at gomisiynu, bod eraill yn gynyddol amddiffynol o feysydd gwasanaeth a'r swyddi'n gysylltiedig â nhw.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd cyfweleion o'r trydydd sector yn bryderus pan oedd cyrff statudol yn ystyried mwy o ddefnydd o'r sector, fod hyn yn cael ei yrru gan dybiaeth anghywir y gallai'r sector ddarparu gwasanaethau ar gost isel (yn rhannol oherwydd defnyddio gwirfoddolwyr).

Felly, dadleuodd un cyfwelai o Gyngor Gwirfoddol Sirol:

'mae angen yn dal i fod i gynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn mae cyrff trydydd sector yn ei wneud a'r hyn i gynigiant i sicrhau fod y sector cyhoeddus yn deall natur y sector, yn cynnwys gallu, lefelau staffio ... eu dibyniaeth ar wirfoddolwyr'.

Credai'r cyfwelai yma fod disgwyliadau cyrff sector cyhoeddus o'r trydydd sector yn aml yn afrealistig a'r gofynion a wnaed arnynt yn or-fiwrocraidd. Roedd hefyd yn amau fod y rhai a weithiai yn y sector cyhoeddus weithiau'n ystyried bod cyrff trydydd sector yn 'amhroffesiynol ac amatur' heb mewn gwirionedd roi ystyriaeth gywir i'r ffaith fod gwirfoddolwyr yn aml yn unigolion gyda chymwysterau uchel ac yn ymroddedig iawn.

Mewn ardal astudiaeth achos arall, dywedodd nifer o gyrff trydydd sector nad oedd swyddogion awdurdodau lleol a manylebau tendro yn caniatau ar gyfer costau rheoli a gweinyddol cywir cyrff trydydd sector, gorbenion fel rhent neu fynychu cyfarfodydd. Teimlid fod y syniad ei bod yn ddilys i gyrff trydydd sector sicrhau gwarged rhesymol o'u gweithgareddau yn anathema, gydag un corff trydydd sector yn dweud y teimlent fod craffu 'gormodol' ar eu hawliadau ariannol. Ystyriwyd hefyd bod gofynion monitro yn ormodol, gydag un corff yn yr ardal yma'n rhoi enghraifft o sut, ran o'r ffordd i mewn y contract, newidiodd y comisiynydd y gofyniad am wybodaeth am os oedd defnyddwyr gwasanaeth yn anabl ai peidio i fod angen gwybod am natur eu hanableddau, gan olygu fod angen cryn waith ôl-weithredol i sicrhau'r wybodaeth.

Credai cyfweleion o'r fath, er y gallai'r sector gynnig gwasanaeth effeithlon o ran cost ac yn bennaf oll, wasanaeth ansawdd gwell oherwydd ei ymwybyddiaeth agos o anghenion defnyddwyr gwasanaeth a'i allu i ddefnyddio gwirfoddolwyr medrus ac ymroddedig, bod gan gyrff trydydd sector yr un costau gorbenion a chydymffurfiaeth â chyrrff statudol, yn aml gyda dadarbedion maint, a bod angen llawer o waith i reoli gwirfoddolwyr: 'rydyn ni'n dal i orfod cael yr adnoddau dynol, y dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, y gwaith swyddfa gefn. Ac er mai dim ond ni a all roi'r gwerth ychwanegol sy'n dod o'n sylfaen gwirfoddolwyr, mae angen cryn fuddsoddiad a chefnogaeth ar gyfer hynny' [cyfwelai o'r trydydd sector].

Ymhellach, fel cyrff seiliedig ar werthoedd, roedd cyrff trydydd sector yn llai parod i dorri corneli a gostwng safonau i gael y gwaith wedi'i wneud: mewn un, dadleuodd pob un o'r cyrff trydydd sector yn benodol fod pris na fyddent yn fodlon tendro'n is nag ef gan y byddai'n golygu gostwng ansawdd i'w defnyddwyr.

Yn gyffredinol, roedd ymdeimlad cryf o'n hardaloedd astudiaeth achos, fod toriadau mewn cyllid cyhoeddus, ymhell o fod yn cymell arloesedd yn nhermau darparu gwasanaethau ac agor cyfleoedd ar gyfer y sector, yn gostwng parodrwydd awdurdodau lleol i o leiaf fod â dull mwy creadigol. Dadleuodd un cyfwelai o'r trydydd sector yr arferai fod archwaeth am newid,

ond bod y toriadau a'u heffaith ar bobl ac adrannau wedi golygu cwtogi, gyda phobl yn edrych yn fwy ar i mewn a heb fod mwyach mewn gwirionedd yn ymgysylltu yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Ymhell o fod yn agor caffaeliad, roedd y toriadau'n gwneud i'r awdurdod lleol osgoi risg, gan fynd am yr 'opsiynau diogel' wrth ddewis contractwyr a hefyd wrth drin y broses.

Dangoswyd hyn yn y farn braidd yn dawedog am y potensial ar gyfer cydgynhyrchu, gyda chyfweleion o'r trydydd sector yn gyffredinol yn dadlau fod cyrff statudol yn gymharol bell o fod yn croesawu hyn. Felly mewn un ardal, dywedodd cyfweleion o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol mai 'cydgynhyrchu yw'r gair mawr y dyddiau hyn', ond mai dealltwriaeth wael oedd o gysyniad cydgynhyrchu ymysg cyrff sector cyhoeddus yn gyffredinol a'r awdurdod lleol yn neilltuol:

'maen nhw'n defnyddio'r geiriau, ond dydyn nhw ddim yn y ffordd o feddwl ... maen nhw'n defnyddio'r gair heb ddeall beth yw ei ystyr'.

Mewn ardal arall, dywedodd cyfwelai o'r Bwrdd Iechyd Lleol fod grym yr awdurdod lleol dros gyrff trydydd sector - lle gallai penderfyniad i ostwng cyllid olygu diwedd y corff - yn gwneud cydgynhyrchu yn amhosibl, tra credai cyfweleion o'r trydydd sector yn gyffredinol nad oedd archwaeth gwirioneddol am, neu ddulliau i gyflawni cydgynhyrchu yn yr ardal.

### **3.5 Llais Dinasyddion**

#### ***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Yn gyffredinol dim ond rôl fechan fu gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn ardaloedd astudiaeth achos yn nhermau datblygu rôl y trydydd sector wrth sianelu llais y dinesydd, er eu bod wedi gwneud cyfraniad sylweddol at strategaethau ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol mewn llawer o ardaloedd. Yn rhannol mae hyn yn adlewyrchu amheumon (o fewn partneriaid statudol ond hefyd i ryw raddau o fewn y sector ei hunan) ar os yw'r trydydd sector yn fwy cyffredinol mewn sefyllfa well i gyflawni'r rôl yma.

Fodd bynnag, mae Creu'r Cysylltiadau wedi galluogi darparu hyfforddiant a gafodd yn gyffredinol ei dderbyn yn dda gan y sector yn 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru a bydd felly wedi cynyddu gallu'r sector i ymgysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Yn rhannol yn adlewyrchu'r farn fod partneriaid sector cyhoeddus yn 'edrych ar i mewn' yn hytrach nag ar i faes yn nhermau ail-lunio gwasanaethau cyhoeddus, byddai'n ymddangos y bu llinyn llais dinesydd Creu'r Cysylltiadau yn gymharol fychan.

### 3.5.1 Gweithgareddau

Serch hynny, yn nhermau *trefnu digwyddiadau/gweithgareddau i alluogi dinasyddion i ymwneud â chynllunio gwasanaethau cyhoeddus, cefnogi grwpiau defnyddwyr i roi mewnbwn i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus a gweitho gyda phartneriaid yn y sector preifat i annog dulliau cynllunio cyfranogol*, bu gan y swyddog Creu'r Cysylltiadau rôl bwysig yng ngwaith ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol mewn nifer o ardaloedd astudiaethau achos.

Felly, fel y nodwyd eisoes, mewn un ardal astudiaeth achos bu swyddog Creu'r Cysylltiadau yn ganolog wrth hybu gwaith Is-grŵp Ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac fel rhan o hyn bu'n ymwneud â threfnu rhai digwyddiadau ymgynghori allweddol. Ymhellach, yn yr ardal yma, mae'r swyddog Creu Cysylltiadau hefyd wedi cynorthwyo wrth lansio'r rhaglen Lleisiau Lleol<sup>55</sup>, yr ystyriwyd ei bod yn llwyddiannus iawn.

Mewn ardal arall, fel gwrthgyferbyniad, gallai bodolaeth Lleisiau Lleol fod wedi bod yn un rheswm pam y camodd y Swyddog Creu'r Cysylltiadau yn ôl o unrhyw gyswllt agos gyda llais y dinesydd, gyda'r gwaith i hybu mewnbwn effeithlon y sector i gynllunio sector cyhoeddus yn canolbwyntio i raddau

<sup>55</sup> Rhaglen a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr ac yn rhoi adnoddau i rai Cyngorau Gwirfoddol Sirol i ariannu portffolio o brosiectau gyda'r nod o gynyddu mewnbwn defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio gwasanaethau

helaeth, er nid yn llwyr, ar gyrff trydydd sector eu hunain yn hytrach na'u defnyddwyr. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys diffyg eglurdeb am beth yn union yw ystyr y term ('ydyn ni'n meddwl cyrff trydydd sector neu ydyn ni'n meddwl pob dinesydd?'), teimlad mai dim ond drwy gyrff trydydd sector y gallai'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ymgysylltu gyda dinasyddion a barn fod anghytuno am hawl y sector i 'gynrychioli' dinasyddion ('y perygl yw eich bod yn sathru ar draed pobl eraill').

Yn wir, roedd cyfweleion mewn ardaloedd astudiaethau achos eraill yn amheus os mai'r trydydd sector yn gyffredinol, ond y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn neilltuol, oedd yn y lle gorau i sianelu llais y dinesydd. Mewn un, nododd rhai cyfweleion o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol mai ei brif swyddogaeth oedd cynrychioli'r trydydd sector, ac y gallai ar adegau fod o leiaf densiynau rhwng buddiannau'r sector ei hun a buddiannau defnyddwyr gwasanaeth. Yn fwy cyffredin, nododd cyfweleion o'r sector cyhoeddus fod ganddynt amrywiaeth o ffyrdd o ymgysylltu'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth, drwy rôl aelodau etholedig yn eu cymunedau, drwy baneli dinasyddion a recriwtiwyd drwy'r awdurdod lleol a thrwy fforymau eraill a sefydlwyd yn uniongyrchol gan adrannau perthnasol.

Yn nhermau iechyd a gofal cymdeithasol, tueddai cyfweleion mewn ardaloedd astudiaeth achos i ystyried mai'r Cydlynnydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a llesiant oedd yr adnodd allweddol o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cefnogi ymgysylltu â dinasyddion, Yn sicr yn o leiaf ddwy ardal astudiaeth achos, pwysleisiodd cyfweleion o'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol bwysigrwydd y swyddi hyn yn nhermau ymgysylltu gyda grwpiau defnyddwyr drwy'r trydydd sector: yn wir, mewn un ohonynt, roedd yr awdurdod lleol wedi gweithio drwy'r Cydlynnydd i ariannu swydd yn benodol i sicrhau y clywid llais defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol.

Yn nhermau *cefnogi cyrff trydydd sector i ymgysylltu'n effeithlon gyda defnyddwyr gwasanaeth*, bu'n ofynnol i bob swyddog Creu'r Cysylltiadau gynorthwyo gyda threfnu hyfforddiant ar gyfer y sector gan Cyfranogaeth Cymru yn y 10 Egwyddor a dulliau ar gyfer ymgysylltu gyda defnyddwyr

gwasanaeth. Yn gyffredinol, mae adborth o ardaloedd yr astudiaethau achos yn awgrymu y bu presenoldeb rhesymol yn yr hyfforddiant yma ac iddo gael ei groesawu.

### 3.5.2 Allbynnau

Ni osodwyd unrhyw dargedau ffurfiol ar gyfer y prosiect gyda WEFO sy'n cyfeirio at y maes gweithgaredd yma. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, ym mhob ardal astudiaeth achos, bydd Creu'r Cysylltiadau fel prosiect wedi arwain at allbynnau yn nhermau *cyrff (trydydd sector/sector cyhoeddus) a hyfforddwyd i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth/cynllunio cyfranogol*, gyda ffocws yn bennaf ar gyrff trydydd sector, tra bu gan Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o ardaloedd o leiaf ran mewn nifer o *ddigwyddiadau ymgynghori a drefnwyd/fynychwyd*.

### 3.5.3 Canlyniadau

Yn gyffredinol, nid yn lleiaf drwy hyfforddiant Cyfranogaeth Cymru, mae'n debyg y bydd Creu'r Cysylltiadau wedi gwneud cyfraniad bach at *gynyddu gallu'r trydydd sector i ymgysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth*. Fodd bynnag, ar gyfer yr ar ardaloedd astudiaeth achos hynny oedd â phrosiectau Lleisiau Lleol (tri allan o'n pump), mae'n debygol mai'r rhaglen ddiweddaraf yma fu'r prif ffocws yn nhermau ymgysylltiad Creu'r Cysylltiadau gyda'r agenda. Yn o leiaf un o'r ardaloedd hyn, ystyriwyd bod Creu'r Cysylltiadau eisoes yn cynnig addewid sylweddol yn nhermau nid yn unig gynyddu ymwybyddiaeth a sensitifrwydd y trydydd sector ei hun i safbwynt defnyddwyr ond hefyd yn nhermau ysgogi diddordeb gan y sector cyhoeddus; nododd un cyfwelai trydydd sector, oedd yn cynnal un o bortffolio'r ardal o brosiectau Lleisiau Lleol, fod galw am y gweithiwr a gyflogid ar y prosiect i fynd i gyfarfodydd nad oedd ganddi fynediad iddynt gyda ffigurau uwch yn yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r Bwrdd Iechyd Lleol, oherwydd y gallai'r gweithiwr roi golwg ddilys ar safbwynt defnyddwyr.

### 3.6 Effeithiau

#### **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL**

Mae dynodi effaith yn her, oherwydd natur hirdymor ac eang y newid a geisir gan Creu'r Cysylltiadau a diffyg gwrthffeithiol.

Er bod rhai enghreifftiau o fewn yr ardaloedd astudiaeth achos o ble bu gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau rôl wrth gefnogi symud tuag at ymyriadau cynnar, mae'n debyg mai cyfraniad cymedrol a gafodd y prosiect yn ei gyfanrwydd.

Mae hyn hefyd yn wir yng nghyswllt y nod o sicrhau gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar y dinesydd ac a gynlluniwyd yn well ac a ddarperir yn fwy effeithlon, lle ymddengys fod Creu'r Cysylltiadau yn gweithredu mewn cyd-destun anffafriol.

Yn olaf, yn nhermau trydydd sector mwy cynaliadwy, ychydig o dystiolaeth sydd y bu Creu'r Cysylltiadau yn ddigon i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn wyneb pwysau gwrthbwysol cryf fel canlyniad uniongyrchol neu uniongyrchol i doriadau mewn gwariant cyhoeddus.

Gan droi at effeithiau disgwylidig y prosiect, mae'n bwysig yn gyntaf i wneud nifer o *gafeatau*.

Y cyntaf yw mai prosiect tymor byr yw Creu'r Cysylltiadau ond gydag uchelgais i sicrhau newid hirdymor. O'r herwydd, mae'n sicr na fydd unrhyw effeithiau yn amlwg hyd ymhell i oes y prosiect ac yn wir, efallai mai dim ond ar ôl i'r prosiect orffen y deuant yn amlwg.

Yr ail yw bod yr heriau a geisir yn bellgyrhaeddol ond cyfyngedig ac mae'n debyg y bydd ystod eang o ffactorau allanol yn dylanwadu ac effeithio arnynt; yn wir, mae adrannau blaenorol wedi dangos pa mor ddibynnol yw'r prosiect ar y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo. Mae'r prosiect hefyd yn gymedrol



yn nhermau maint: mae adnodd Creu'r Cysylltiadau yn llai na 5% o'i gyfanswm adnoddau ar gyfer hyd yn oed y Cyngor Gwirfoddol Siriol lleiaf yn yr astudiaethau achos.

Yn drydydd, mae'n amhosibl modelu'r gwrthffeithiol mewn unrhyw ffordd real, mewn geiriau eraill, yr hyn fyddai wedi digwydd oni bai am fodolaeth y prosiect, sy'n gam hanfodol wrth asesu effaith. Mae'n bwysig felly bod yn ymwybodol hyd yn oed lle na ddigwyddodd y newidiadau a ddymunid - neu lle mae pethau wedi symud yn y cyfeiriad gwahanol - ei bod o leiaf yn bosibl y byddai pethau wedi bod yn waeth oni bai am fodolaeth y prosiect.

Gan droi'n gyntaf at p'un ai yw'r prosiect wedi cynorthwyo *symud tuag at ymyriadau cynnar gan ostwng yr angen am wasanaethau aciwt*, mae'n sicr bod rhai enghreifftiau cadarnhaol o fewn yr astudiaethau achos lle gallai ymyriadau Creu'r Cysylltiadau fod wedi helpu i gyflawni hyn. Er enghraifft, mae hyn yn wir am y gwaith mewn un ardal astudiaeth achos i gydlynu gwasanaethau'r sector statudol a'r trydydd sector yn well i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol ac yn yr un modd am y prosiect mewn ail ardal i greu rhwydwaith o gyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyfeillio (er mai dim ond yn rhannol y meddir priodoli hyn i fewnbwn swyddog Creu'r Cysylltiadau). Mae hefyd yn wir fod ffocws cryf ym mhob un o ardaloedd astudiaethau achos o fewn Cynlluniau Integredig Sengl ar ddull ataliol, ac i'r graddau fod Creu'r Cysylltiadau mewn rhai ardaloedd wedi llwyddo i sicrhau cyfraniad y trydydd sector wrth ddatblygu'r strategaethau hyn, bydd cyfraniad wedi ei wneud. Fodd bynnag, yn ei gyfanrwydd, mae'n debygol mai cyfraniad cymedrol fu gan Creu'r Cysylltiadau.

Mae hyn hefyd yn debyg o fod yn wir yng nghyswllt y cyfraniad tuag at sicrhau *gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a gafodd eu cynllunio'n well ac a gyflwynir yn fwy effeithlon*. Fel y gwelsom, mewn llawer ffordd ni fu gan y prosiect ffocws cryf ar harneisio llais y defnyddiwr - yr arwyddion cynnar, o leiaf o un ardal, yw y gall y rhaglen Lleisiau Lleol fod wedi cael mwy o effaith yma - er, hyd yma, ymddengys y bu mwy o siarad am gydgyhyrchu nac o weithredu. Ar ôl dweud hyn, bu gan swyddog Creu'r

Cysylltiadau yn yr un ardal rôl bwysig wrth geisio cynyddu ymgysylltiad gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl (er mai gyda dim ond canlyniadau cyfyngedig), tra bod swyddog Creu'r Cysylltiadau mewn ardal wedi rhoi dulliau ar waith i sicrhau fod cyrff trydydd sector, yn aml gyda chysylltiad agos gydag anghenion defnyddwyr, wedi eu cynrychioli'n well ar bartneriaethau a fforymau sydd â rôl wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Wedi'i osod yn erbyn hyn mae tystiolaeth mewn rhai ardaloedd y gall defnyddio llwybrau caffael mwy ffurfiol (a'r problemau tybiedig y mae hyn yn ei greu ar gyfer gweithio agos gyda'r sector) a'r ffocws ar ostwng costau a/neu ddiogelu swyddi sector cyhoeddus, yn rhwydd fod yn llesteirio'r potensial i'r sector ddefnyddio safbwynt defnyddwyr.

Yn olaf, yn nhermau *trydydd sector mwy cynaliadwy*, ychydig o dystiolaeth sydd y bu Creu'r Cysylltiadau yn ddigon i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn wyneb pwysau gwrthbwysol cryf fel canlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol toriadau mewn gwariant cyhoeddus. Hyd yn oed pan ddefnyddir arbenigedd y sector, nid yw'n glir y caiff hyn ei ariannu'n ddigonol, ac mae'r gwaith maes wedi rhoi enghreifftiau niferus o gyrff trydydd sector dan bwysau difrifol oherwydd toriadau cyllid a phrosesau caffael heb fod yn dryloyw neu nas cynlluniwyd mewn ffordd sy'n hwyluso ymgysylltiad y sector. Er y bydd Creu'r Cysylltiadau wedi meithrin gallu rhai cyrff trydydd sector i ymgysylltu'n fwy effeithlon gyda chaffaeliad, ymddengys hyn yn ymylol yn y cyd-destun ehangach, tra bod y gwaith maes hefyd wedi dangos mai cymharol ychydig o gyswllt gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol a gyflwynodd y prosiect fu gan lawer o'r cyrff trydydd sector sydd fwyaf tebygol o ymwneud â phrosesau caffaeliad cyhoeddus.

### **3.7 Arfer Da**

#### ***CANFYDDIADAU ALLWEDDOL***

Ymddengys y bu Creu'r Cysylltiadau yn fwy llwyddiannus mewn dwy o'r pum ardal astudiaeth achos ac ymddengys y medrir priodoli hyn i:

- canolbwyntio ar ystod cymharol gul o elfennau o fewn rôl gyffredinol swyddog Creu'r Cysylltiadau;

- integreiddio gwaith swyddog Creu'r Cysylltiadau'n effeithlon gyda'r adnoddau eraill sydd ar gael i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol a sicrhau cyfathrebu ardderchog gyda chydweithwyr eraill o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol;
- defnyddio sgiliau unigol ac arbenigedd y swyddog yn effeithlon a 'chwarae i'w cryfderau';
- manteisio ar y berthynas dda sy'n bodoli eisoes rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol.

Gan edrych ar draws y pedwar maes lle disgwylid i Creu'r Cysylltiadau wneud cyfraniad, rydym yn awr yn troi i ystyried pa ffactorau fu â rôl wrth sicrhau llwyddiant y prosiect mewn rhai ardaloedd ac mewn rhai ffyrdd.

A siarad yn fras, mewn dwy o'n pum ardal roedd cyfweleion yn teimlo'n gyffredinol fod Creu'r Cysylltiadau yn gwneud cyfraniad mwy sylweddol i gynyddu proffil a rôl y sector yn nhermau llunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn y ddau achos, daeth nifer o ffactorau i'r amlwg fel bod yn bwysig fel sylfaen llwyddiant.

Yn gyntaf, y penderfyniad yn y ddau achos i ganolbwyntio ar ystod gulach o weithgareddau nag a awgrymir yn nisgrifiad cyffredinol swydd Creu'r Cysylltiadau a'r Cynllun Gweithredu Unigol.

Mewn un ardal, mae swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar ddarpariaeth uniongyrchol nifer o flaenoriaethau perthnasol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y ddau ohonynt yn cynnwys mobileiddio helaeth ar y trydydd sector yn lleol: ymddengys i hyn ddangos gwerth ymgysylltu gyda'r sector i bartneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus a chefnogi'r sector i ddatblygu ei ymatebolrwydd ei hun.

Yn yr ail, mae swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar gefnogi meithrin gallu o fewn y sector ac ar 'seilwaith' cysylltu'r trydydd sector gyda'r broses cynllunio gwasanaethau cyhoeddus gyda ffocws cryf iawn ar sicrhau llif dwyffordd da o wybodaeth rhwng y Bwrdd

Gwasanaethau Lleol a phartneriaethau eraill a'r sector yn lleol, gan adael elfennau'r disgrifiad swydd i raddau helaeth i staff eraill y Cyngor Gwirfoddol Sirol (neu ar gyfer y dyfodol). Yn yr ardal hon, dywedwyd ei bod yn bwysig 'cropian cyn cerdded', gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol o'r farn y bu'n hollbwysig i swyddog Creu'r Cysylltiadau ganolbwyntio ar ddeall anghenion, codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu o fewn cyrff trydydd sector - y gellid dadlau eu bod i gyd yn hanfodol cyn annog ymgysylltiad mewn dylunio neu ddarparu gwasanaethau.

Yn y ddwy ardal astudiaeth achos yma, ystyriwyd bod y Cynllun Gweithredu Unigol yn bennaf yn ymarferiad biwrocraidd yn hytrach na rhywbeth oedd yn llywio gwaith dydd-i-ddydd y Swyddog.

Yn wahanol i hynny, mewn rhai o'r ardaloedd astudiaeth achos eraill, ymddengys bod swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi ymwneud mwy â gweithgaredd yn gysylltiedig â 'thicio'r blychau', a gellid dadlau bod hynny'n arwain at waith ofer ac efallai ddyblygu gwaith staff eraill o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol.

Yn ail, ac yn gysylltiedig, bu pwyslais cryf yn y ddwy ardal astudiaeth achos yma ar integreiddio gwaith swyddog Creu'r Cysylltiadau gyda'r adnoddau eraill sydd ar gael i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol. Aethpwyd i'r afael â hyn o'r dechrau mewn un ardal:

'Roeddem yn ymwybodol iawn o ardaloedd eraill y gellid ystyried bod swyddog Creu'r Cysylltiadau yn sathru ar draed staff presennol. Felly fe wnaethom bwynt o fynd i'r afael â hynny yn gynnar yn y prosiect.'

Ymhellach, cafodd pwysigrwydd sicrhau cyfathrebu ardderchog a chyswllt rheolaidd gyda chydweithwyr o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol (gyda chyfarfodydd wythnosol gyda staff allweddol a gyflogir gan brosiectau eraill perthnasol) ei danlinellu'n drwm iawn gan swyddog Creu'r Cysylltiadau a chyfweleion eraill o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol, gydag un yn mynegi syndod nad oedd hyn yn ymddangos fod hyn yn digwydd gyda chydweithwyr eraill Creu'r Cysylltiadau:

'Roedd Cyngorau Gwirfoddol Sirol eraill yn ein rhanbarth yn ymddangos yn synnu ein bod yn cynnal y cyfarfodydd hyn'.

Mewn o leiaf ddwy ardal astudiaeth achos arall, ymddangosai fod swyddog Creu'r Cysylltiadau yn gymharol ymylol o fewn y Cyngor Gwirfoddol Sirol, gan weithredu mewn rhyw fath o wagle neu'n cyflawni rolau ategol yn unig. Yn wir mewn un ohonynt dywedodd y swyddog 'bu agwedd negyddol tuag at brosiect Creu'r Cysylltiadau yn gyffredinol' o'r tu mewn i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol a Chyngorau Gwirfoddol Sirol eraill y gwyddai amdanynt.

Yn drydydd, ac unwaith eto gyda chysylltiad agos, bu gallu i ddefnyddio sgiliau a phrofiad unigol y swyddog Creu'r Cysylltiadau'n effeithlon. Yn y cyswllt hwn, nodwyd mewn un o'r ddwy ardal astudiaeth achos mwy llwyddiannus, fod yr unigolyn yn rôl Creu'r Cysylltiadau wedi gweithio i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol am gyfnod maith, gyda chysylltiadau da gyda chyrrff trydydd sector oedd yn aelodau o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol a hefyd bartneriaid sector cyhoeddus. Yn yr ail ardal, er i swyddog Creu'r Cysylltiadau gael ei recriwtio'n benodol i'r swydd, roedd cyfatebiaeth agos rhwng ei set sgiliau (sgiliau cryf iawn mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu) â ffocws ei waith. Yn yr un modd, yn yr ardaloedd astudiaeth achos eraill, roedd swyddogion Creu'r Cysylltiadau'n aml yn ymddangos i fod yn fwyaf effeithlon pan ganiateid iddynt chwarae i'w cryfderau: mae hyn yn wir, er enghraifft, mewn un ardal lle bu'r swyddog Creu'r Cysylltiadau yn effeithlon wrth gyfrannu at strategaeth ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, gan ddefnyddio profiad blaenorol yn Cymunedau yn Gyntaf.

Yn bedwerydd - ac yn anos ei ddynwared - mae'r ddwy ardal fwy llwyddiannus yn rhai lle bu'r berthynas rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol yn hanesyddol agos yn wahanol i eraill lle ymddengys bod tensiynau ehangach rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol wedi gwneud gwaith swyddog Creu'r Cysylltiadau yn llawer mwy problemus. Mewn un o'r ardaloedd hyn, er enghraifft, bu ymrwymiad cryf i'r broses Compact gan yr awdurdod lleol a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (ac yn wir y Bwrdd Iechyd Lleol), ac yn y llall, cafod y berthynas rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a phartneriaid

allweddol eu portreadu'n gadarnhaol gan bawb a gyfwelwyd. Ymhellach, yn yr ail ardal yma dywedwyd fod gwasanaethau rheng-flaen hyd yma wedi eu gwarchod i raddau helaeth rhag toriadau gwariant, er y rhagwelir y bydd hyn yn newid o'r flwyddyn nesaf ymlaen; mae'r trydydd sector yn ystyried fod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gweithredu'n effeithlon (sy'n sicr nid yn wir yn y tair ardal arall) ac ychydig iawn o newid, os bu newid o gwbl, fu yn y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn comisiynu gwasanaethau gan gyrrff trydydd sector.

### 3.8 Rhwystrau

#### **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL**

Mae ystod eang o ffactorau wedi gweithredu fel rhwystrau i brosiect Creu'r Cysylltiadau wireddu ei botensial yn llawn. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â bod y prosiect wedi ei gynllunio mewn ffordd rhy uchelgeisiol, perthynas wael mewn rhai achosion rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chyrrff statudol, diffyg cynnydd wrth ddatblygu Cynlluniau Integredig Sengl a Byrddau Gwasanaethau Lleol i'r pwynt lle maent yn dechrau dylanwadu ar gomisiynu gwasanaethau, ac effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

Yn ein hadroddiad llinell sylfaen fe wnaethom ddynodi nifer o ffactorau cyd-destunol a oedd, yn ein barn ni, yn cael effaith niweidiol ar allu Creu'r Cysylltiadau i gyflawni ei botensial llawn a thrafodwyd nifer ohonynt eisoes yn Adrannau 3.2 i 3.6 uchod. Fodd bynnag, gall fod yn ddefnyddiol rhoi crynodeb byr pellach ohonynt. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Perthynas wael a fodolai eisoes rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol (sydd yn gyffredinol yn cael eu gweld yn ymarferol fel bod yn rheoli'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol, beth bynnag yw'r ddamcaniaeth). Mae hyn yn bendant yn wir mewn dwy ardal;
- Yr adnoddau ar gael i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ac i ba raddau yr oedd agweddau allweddol swydd Creu'r Cysylltiadau, fel y cawsant eu gweld yn wreiddiol, eisoes yn cael eu cyflawni gan staff eraill a ariannwyd drwy brosiectau a ffrydiau cyllid eraill (er mewn rhai achosion, fel y trafodir uchod, bod amcanion Creu'r Cysylltiadau yn cael eu cyflawni

drwy ddulliau eraill). Ymddengys hyn yn neilltuol o wir yn achos iechyd, lle ym mhob un o'r ardaloedd astudiaeth achos mae rôl Cydlynwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant wedi hen ennill ei blwyf ac yn cael ei werthfawrogi. Yn wir, dadleuodd un cyfwelai o Fwrdd Iechyd Lleol fod y Cydlynwyr yn ymarferol yn swyddog Creu'r Cysylltiadau dros iechyd a gofal cymdeithasol, gan awgrymu fod rhoi sylw i bopeth arall yn llawer i'w ofyn gan un unigolyn;

- Yn gysylltiedig â hyn, teimlad cryf gan lawer o'r cyfweleion a wyddai am gwmpas Creu'r Cysylltiadau fod y rôl fel y'i rhagwelwyd yn wreiddiol yn rhy uchelgeisiol, yn arbennig o gofio am gylch oes byr y prosiect, ac na all swyddogion unigol Creu'r Cysylltiadau wneud fwy na chrafu'r wyneb:

'dim digon o adnoddau i adael eich ôl, yn arbennig os ydych yn ceisio gadael ôl cynaliadwy' [cyfwelai o'r sector cyhoeddus];

- Cynnydd (neu ddiffyg cynnydd) datblygu'r Cynllun Integredig Sengl, a'r ymdeimlad fod y Cynlluniau Integredig Sengl (a gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn fwy cyffredinol) ar wahân i benderfyniadau ymarferol am siâp cynllunio a chomisiynu gwasanaethau cyhoeddus (gan felly ostwng y cymhelliant i gyrff trydydd sector gymryd rhan). Yn wir, mewn un ardal, dywedodd nifer o gyfweleion fod y newidiadau o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi gwneud gwaith swyddog Creu'r Cysylltiadau yn amhosibl:

'nid oes dim wedi symud ymlaen [gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol] ... ni fu'n bosibl iddi wireddu ei phrif amcanion ... ond oherwydd pethau y tu allan i'w rheolaeth' [cyfwelai o Gyngor Gwirfoddol Sirol];

Hyd yn oed lle'r oedd y berthynas yn dda, roedd cyfweleion yn dal i gredu fod strwythurau o amgylch y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ansefydlog:

'mae'n ymddangos eu bod yn newid o wythnos i wythnos' [cyfwelai o Gyngor Gwirfoddol Sirol];

- Effaith toriadau ariannol ar awdurdodau lleol a chyrrff eraill y sector cyhoeddus. Er mewn rhai achosion fod hyn yn dal i gael ei ystyried fel bod yn cyflwyno cyfleoedd (yn nhermau cynnig cyfleoedd newydd i

ddarparu gwasanaethau anstatudol megis llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol drwy'r sector gyda mwy o ddefnydd o fewnbwn gwirfoddol), thema gyffredin gan gyfweleion yn y cylch cyntaf o waith maes a hyd yn oed fwy yn y gwaith maes oedd yn sylfaen i'r adroddiad hwn oedd bod awdurdodau lleol yn rhoi gormod o sylw i ddelio gyda'r argyfwng uniongyrchol - ac mewn llawer o achosion yn ceisio lleihau colli swyddi - i feddwl yn greadigol neu feddwl am y sector fel unrhyw beth heblaw ffynhonnell llafur am ddim);

- Y trosiant uchel o staff yn y sector cyhoeddus fel sgil-ffaith y pwysau ariannol ar y sector cyhoeddus a'r anawsterau a achosai hyn ar gyfer *cynnal* y cysylltiadau;
- Ffaith toriadau a'r sefyllfa economaidd anodd ar y cyrff trydydd sector eu hunain, drwy doriadau neu ostyngiadau mewn grantiau oedd yn gostwng gallu sefydliadau i ymgysylltu gydag agendâu mwy strategol megis cynllun gwasanaeth cyhoeddus (canfyddiad a adleisiwyd gan werthusiad prosiect ehangach Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Cronfa Gymdeithasol Ewrop<sup>56</sup>). Mewn un ardal, er enghraifft, teimlwyd fod hyn yn neilltuol o wir am sefydliadau llai 'heb fod â'r adnoddau a swyddogaethau swyddfa gefn i glustnodi'r amser' [cyfwelai o Gyngor Gwirfoddol Sirol];
- Diffyg eglurdeb yn nhermau ymagwedd y sector cyhoeddus at gomisiynu gwasanaethau cyhoeddus o'r trydydd sector. Mewn o leiaf ddwy ardal astudiaeth achos dadleuwyd mai ychydig iawn o gomisiynu tryloyw o wasanaethau oedd mewn gwirionedd, a olygai fod y buddsoddiad mewn meithrin gallu'r sector i gynnig yn ddiwerth, tra mewn o leiaf ddwy ardal eraill, credid bod dulliau mwy ymosodol o ddefnyddio caffaeliad wedi eu cyflwyno mewn ffordd ddifeddwl, a'u bod mewn gwirionedd yn gostwng potensial y sector i roi mewnbyn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau;
- 'Malltod cynllunio' yn nhermau penderfyniadau ar gomisiynu gwasanaethau fel canlyniad i ansicrwydd am ddyfodol strwythurau

---

<sup>56</sup> Canfu arolwg o brosiectau Byrddau Gwasanaethau Lleol 'nad oedd gan gyrff trydydd sector y capasiti i ymgysylltu'n llawn, er bod hyn yn un o nodau prosiect Byrddau Gwasanaethau Lleol - Cronfa Gymdeithasol Ewrop'.



Ilywodraeth leol a gweithio rhanbarthol a achoswyd gan greu'r Comisiwn. Er bod adroddiad y Comisiwn wedi'i gyhoeddi adeg ein gwaith maes diweddaraf, dywedodd rhai cyfweleion fod yr argymhellion (yr ymddangosai y byddent yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w gweithredu) yn golygu y byddai cyfnod hir pan fyddai penderfyniadau strategol ar gomisiynu yn yr arfaeth, gyda thoriadau cyllideb yn arwain at doriadau tameidiog yn hytrach nag ail-gynllunio sylfaenol ar wasanaethau.

## 4. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae'r gwaith manylach yn yr ardaloedd astudiaeth achos a wnaed yn ystod cam diweddaraf yr ymchwil wedi tueddu i gadarnhau canfyddiadau'r gwerthusiad proses dechreuol yng nghyswllt y bwlch sylweddol sy'n bodoli rhwng uchelgeisiau'r prosiect fel y'i crëwyd i ddechrau a'r hyn y bu'n bosibl ei gyflawni hyd yma.

Mae swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn llawer o achosion yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at sicrhau gwell cynrychiolaeth i'r sector yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a fforymau allweddol eraill; i ledaenu gwybodaeth am y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl; ac i gefnogi cyrff unigol yn y trydydd sector i ddatblygu eu gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac ystyried gweithio mewn partneriaeth i wneud hynny. Mae ein hastudiaethau achos yn awgrymu rhai enghreifftiau cadarnhaol iawn (os cymharol brin) o swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn chwarae rôl ganolog wrth symud ymlaen gyda chynlluniau ymarferol i wella darpariaeth gwasanaethau; wrth drefnu cydweithredu rhwng cyrff trydydd sector; ac wrth weithredu fel catalydd ar gyfer mewnbwn cryfach gan y sector i waith Byrddau Gwasanaethau Lleol a fforymau eraill; tra bod y prosiect yn ei gyfanrwydd wedi helpu i godi proffil 10 Egwyddor Cenedlaethol Ymgysylltu Cyhoeddus o fewn y sector.

Fodd bynnag, cyfyngodd y cyd-destun ar gyfer gweithredu'r prosiect yn ddirifol ar allu swyddogion Creu'r Cysylltiadau ac yn wir Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn fwy cyffredinol i drosi eu gweithgareddau yn ganlyniadau gwirioneddol yn nhermau mwy o rôl ar gyfer y trydydd sector wrth lunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a gwelliant sylweddol yn ansawdd cynllunio a gweithredu gwasanaethau, yn neilltuol:

- Y cynnydd aml yn araf yn nhermau symud y gwaith o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol o ddadansoddi anghenion a dynodi materion i ystyried dyluniad a darpariaeth gwasanaethau, a'r ymdeimlad o ddiffyg cysylltiad rhwng y trafodaethau strategol lefel uchel yma a phenderfyniadau comisiynu;

- Tueddiad cyrff cyhoeddus (efallai'n neilltuol awdurdodau lleol) yw troi ar i mewn mewn ymateb i bwysau a ddaw yn sgil toriadau mewn cyllid cyhoeddus, i geisio lleihau colledion swyddi drwy gymryd gwasanaethau yn fewnol, ac i fod yn llai parod i ystyried dulliau mwy arloesol a phersonol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (mewn geiriau eraill, gydgyhyrchu) yn wyneb pwysau o'r fath;
- Y gostyngiad yng ngallu llawer o gyrff trydydd sector i ymgysylltu gydag agendâu mwy strategol oherwydd effaith toriadau yn eu cyllid eu hunain (ac mewn rhai achosion, alw cynyddol am wasanaethau);
- Yr hyn a ymddengys yn ddryswch a diffyg cysondeb yn y dull caffael, gyda chyfleoedd cymharol gyfyngedig i gyrff lleol trydydd sector dendro, ac i lai ohonynt dendro'n llwyddiannus, i ddarparu gwasanaethau;
- Diffyg cyfatebiaeth rhwng disgwyliadau comisiynwyr sector cyhoeddus y gallai'r trydydd sector fod yn opsiwn rhad, a barn cyrff trydydd sector fod cyrff trydydd sector yn rhoi gwerth ychwanegol drwy ansawdd a chydgyhyrchu, nid gostau is;
- Y 'malltod cynllunio' yn arwain o'r drafodaeth am ailstrwythuro llywodraeth leol a'r tensiwn rhwng ffocws lleol y rhan fwyaf o Fyrddau Gwasanaethau Lleol a phwysigrwydd cynyddol yr agenda rhanbarthol.

Yn yr ystyr yma, mae ein hymchwil wedi tueddu i gadarnhau barn y Comisiwn fod Byrddau Gwasanaethau Lleol ymhell o gyflawni eu potensial llawn ac nad ydynt hyd yma wedi arwain at welliannau mewn gwasanaethau, fod gweithio partneriaeth yn rhy feichus ac yn or-gymhleth a bod mwy o siarad am gydgyhyrchu nag o ymarfer arno. Mae hefyd yn taro tant gyda chanfyddiadau gwerthusiad ehangach Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Cronfa Gymdeithasol Ewrop fod gwella rôl y trydydd sector a chynyddu dylanwad y defnyddiwr gwasanaeth am ddylunio gwasanaeth, hyd yma o leiaf, wedi bod o gonsyrn cymharol gyfyngedig yn nhermau'r prosiectau cyflenwi. Yn wir - er yn cydnabod fod y darlun ym mhob un o'r pum ardal astudiaeth achos yn wahanol iawn, ac yn absenoldeb Creu'r Cysylltiadau, y gallai sefyllfa'r sector fod yn wannach byth - mewn nifer ohonynt, ymddengys yn glir y daeth yn fwy,

nid llai, anodd i'r trydydd sector yn lleol fod â rôl sylweddol wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

Ond er y gall ffactorau allanol fod i gyfrif am lawer o'r anawsterau sy'n wynebu prosiect Creu'r Cysylltiadau, mae hefyd nifer o faterion yn ymwneud â dyluniad y prosiect sy'n awgrymu nad dim ond am amseru yn unig mae'r anawsterau hyn.

Yn gyntaf, fel y cydnabu llawer o'r rhai y gwnaethom eu cyfweld, mae diffyg cyfatebiaeth rhwng maint yr uchelgais a nodir yn y Cynllun Busnes ac adnoddau ac amserlenni'r prosiect. Hyd yn oed mewn amgylchiadau mwy ffafriol, mae'n anhebygol y bu erioed yn realistig disgwyl i un swyddog cymharol isel o ran gradd mewn Cyngor Gwirfoddol Siroil i fedru darparu'r ystod o weithgareddau (a hyd yn oed fwy o ganlyniadau) a ragwelwyd.

Yn ail, nid oedd y ffocws ar recriwtio swyddog 'Creu'r Cysylltiadau' penodol ym mhob ardal, er yn ddealladwy o safbwynt dangos 'ychwanegoldeb' y prosiect, o reidrwydd yn cydnabod yn llawn i ba raddau y mae materion yn ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn rhan allweddol o waith Cyngorau Gwirfoddol Sirol a llawer o'u staff. Er bod Cynllun Trydydd Sector newydd Llywodraeth Cymru wedi amlygu cefnogaeth ar gyfer ymgyfraniad trydydd sector mewn dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus fel swyddog craidd ar gyfer seilwaith trydydd sector (a nod allweddol y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar ei gyfer), mewn gwirionedd nid yw hyn ond yn ailddatgan blaenoriaeth a nodwyd yn *Y Trydydd Dimensiwn* mor bell yn ôl â 2008.

Mae hyn wedi golygu, hyd yn oed lle mae Creu'r Cysylltiadau wedi gweithio'n dda, ei bod yn amhosibl gwahanu effeithiau'r prosiect oddi wrth effeithiau ehangach hyrwyddiad y Cyngor Gwirfoddol Sirol o'r agenda yma. Lle na weithiodd cystal, cafodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau hi'n anodd diffinio eu rôl ac mewn rhai achosion, ymddengys iddynt gael eu hymylu o fewn eu corff eu hunain. Mae'r ffaith fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn anochel wedi eu cyflogi ar gcontractau cyfnod sefydlog gweddol fyr wedi golygu y gall rheolwyr

fod wedi bod yn amharod i'w defnyddio mewn rolau mwy gweladwy, sy'n wynebu ar i faes.

Yn drydydd, ac efallai'n fwy cymhleth i'w ddatrys, yw'r cwestiwn er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol rôl unigryw yn nhermau cynrychioli'r sector ar lefel leol, nad yw eu sefyllfa mewn unrhyw ffordd yn ddiwrthwynebiad. Wrth amlygu amrywiaeth enfawr hysbys y sector, mae ein gwaith maes hefyd wedi dangos y ffaith yr ystyrir mai dim ond un rhan o'r sector y mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn ei gynrychioli, yn fwyaf neilltuol cyrff sydd wedi angori'n fwy lleol a gyda sylfaen fwy cymunedol. Yn eironig, efallai, y cyrff hynny sy'n gweithredu ar raddfa fwy, a all eisoes fod mewn sefyllfa weddol gref o ran dylanwadu ar syniadau comisiynwyr ar ddylunio gwasanaethau ac sydd eisoes mewn lle cymharol dda i sicrhau contractau ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus a gaiff eu tendro'n agored, sy'n tueddu i beidio ystyried bod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn eu cynrychioli ac yn wir y gallant eu gweld fel cystadleuwyr.

Er ei bod yn anochel fod yn rhaid i unrhyw argymhellion a wneir ar y cam yma o'r ymchwil fod yn ddarpariaethol, rydym yn ymwybodol fod contractau swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gyffredinol yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2014 ac y bydd angen gwneud penderfyniadau yn fuan am y dyfodol. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r ffaith ei bod yn annhebygol y bydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ariannu olynnydd i brosiect Creu'r Cysylltiadau, gan nad yw Rhaglenni newydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer 2014-2020 yn cynnwys darpariaeth am ymyriadau i gefnogi diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Rydym felly'n argymhell:

**Argymhelliad 1:** Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Cynghorau Gwirfoddol Sirol i flaenoriaethu eu gwaith ar ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n debyg y caiff hyn ei gyflawni'n fwy effeithlon drwy sicrhau fod adnoddau ar gael yn glir o fewn y Grant Seilwaith i gefnogi'r gwaith hwn a drwy sicrhau bod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn ymarferol yn rhoi blaenoriaeth briodol i'r rôl. Mae angen i

Gynghorau Gwirfoddol Sirol gael yr hyblygrwydd i ddefnyddio adnoddau staff yn y ffordd sy'n ymddangos yn fwyaf addas iddynt.

**Argymhelliad 2:** Dylai Cynghorau Gwirfoddol Sirol (gyda chefnogaeth y WCVA lle bo angen) adolygu rolau a chyfrifoldebau eu staff presennol i ddynodi bylchau amlwg (yn dilyn Creu'r Cysylltiadau) yn nhermau sicrhau gwasanaeth digonol i is-grwpiau allweddol y Byrddau Gwasanaethau Lleol a fforymau eraill. Gan ddefnyddio arfer da a ddatblygwyd drwy'r prosiect (yn neilltuol mewn un ardal astudiaeth achos) i gefnogi cynrychiolwyr trydydd sector i adrodd yn ôl, dylent ystyried i ba raddau y gellir defnyddio cynrychiolaeth o'r sector ehangach (h.y. tu allan i staff Cynghorau Gwirfoddol Sirol) i sicrhau cwmpas llawn.

**Argymhelliad 3:** Dylai Cynghorau Gwirfoddol Sirol barhau i gynnig hyfforddiant a meithrin gallu yn ymwneud â thendro i sefydliadau sy'n aelodau fel rhan o'u cynnig hyfforddiant creiddiol, gan Gronni Adnoddau lle bynnag sy'n bosibl, a gyda ffocws cryf yn parhau ar sicrhau cydweithredu.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r WCVA ystyried p'un ai, ac os felly, sut, y gellir sicrhau mwy o ymgysylltu gyda chyrff mwy yn y thrydydd sector i ddefnyddio eu mewnbwn i feddwl am ddyluniad gwasanaethau ac i sicrhau negeseuon cyson o'r sector ehangach i gomisiynwyr sector cyhoeddus.

**Argymhelliad 5:** Wrth ddatblygu ei ymateb i'r Comisiwn, yn cynnwys ei bapur arfaethedig ar gydgyhyrchu, dylai Llywodraeth Cymru gydnabod barn y sector am y cynnydd cyfyngedig a wnaed yn nhermau'r agenda yma ac ystyried pa fesurau eraill y gellir eu cymryd i gymell awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i ymgysylltu mwy, yn arbennig o gofio am effaith pwysau ar gyllidebau.

**Argymhelliad 6:** Er yn cydnabod ei fod eisoes wedi buddsoddi gwaith sylweddol yn nhermau gwella caffaeliad, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau fod pob corff cyhoeddus wedi ac yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau clir ar

arfer caffaeliad da, yn cynnwys yng nghyswllt y canfyddiad fod gwrthdaro posibl mewn diddordebau yn ei gwneud yn amhriodol i'r trydydd sector fod â mewnbwn wrth ddylunio gwasanaethau.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gamau pellach y gellir eu cymryd i sicrhau mwy o gydymffurfiaeth ar ran pob corff cyheoddus gyda'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.